# Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020

## Canllawiau ar gyfer cadw neu hyfforddi anifeiliaid ar gyfer eu harddangos

**Mawrth 2020**

Yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, i gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau.

Fersiwn: 1.0 Cyhoeddwyd: *[i'w gadarnhau]*

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Adran 1

1. Dod i rym
2. Pwy a beth i'w drwyddedu
3. Hyd cyfnod trwydded
4. Caniatáu trwydded
5. Ystyried cais i ganiatáu neu adnewyddu trwydded
6. Arolygwyr â chymwysterau addas
7. Adnewyddu trwydded
8. Atal, amrywio neu ddirymu trwydded
9. Gwrthod cais am drwydded
10. Y broses apelio
11. Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru
12. Arolygiadau yn ystod tymor trwydded
13. Marwolaeth deiliad trwydded
14. Pwerau mynediad
15. Troseddau
16. Pwerau ôl-euogfarn
17. Pennu ffioedd
18. Gweithgareddau sy'n dod o dan y ffioedd trwyddedu

# Adran 2

## Beth sydd oddi mewn a thu hwnt i'r cwmpas

Rhywogaethau

Diffiniadau

Gweithgaredd trwyddedadwy

Enghreifftiau

Gweithgareddau oddi mewn i'r cwmpas

Gweithgareddau y tu hwnt i'r cwmpas

## Trosolwg o'r amodau a'r canllawiau esboniadol

1. Arddangos trwydded
2. Cofrestri, cofnodion, rhestrau a hysbysiadau
3. Defnydd, nifer a math o anifail
4. Staffio
5. Amgylchedd addas
6. Deiet addas
7. Monitro ymddygiad a hyfforddiant anifeiliaid
8. Trin anifeiliaid a rhyngweithio
9. Amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd
10. Argyfyngau
11. Yswiriant

# Cyflwyniad

Mae lles anifeiliaid yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol o unrhyw anifeiliaid sy’n cael eu cadw.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i arddangosion anifeiliaid (AE) sy’n dod o fewn cwmpas gweithgaredd trwyddedadwy, fel y’i diffinnir yn y Rheoliadau, fod yn drwyddedig.

Mae’n nodi’r amodau y mae’n rhaid i AE lynu wrthynt mewn perthynas â lles anifeiliaid a diogelwch y cyhoedd. Mae hefyd yn mynnu bod anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn ffordd sy’n annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at bob rhywogaeth.

Mae’r canllawiau hyn wedi’u hanelu at arolygwyr awdurdodau lleol yng Nghymru i’w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau a’r amrywiaeth o sefyllfaoedd lle gallant fod yn gymwys. Gall hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i arddangoswyr anifeiliaid sydd â thrwydded AE ar hyn o bryd neu sy’n dymuno gwneud cais am un.

Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020. Mae i’r termau a ddefnyddir yn y Canllawiau hyn yr un ystyr ag yn y Rheoliadau, oni nodir yn wahanol.

# Adran 1

## 1. Dod i rym

Lluniwyd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar *[i'w gadarnhau]*.

Daw'r Rheoliadau i rym ar *[i'w gadarnhau].*

## 2. Pwy a beth i'w drwyddedu

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 ('y Rheoliadau') yn gymwys i weithredwyr AE sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Os yw gweithgaredd yn cael ei ystyried yn weithgaredd trwyddedadwy, rhaid cael trwydded gan yr awdurdod lleol er mwyn cyflawni'r gweithgaredd yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i bob gweithredwr sy'n arddangos ei anifeiliaid yng Nghymru, pa un a ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru, y DU neu unrhyw wlad arall.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y 'gweithredwr'- y sawl sy'n cynnal, yn ceisio cynnal neu'n caniatáu i'r gweithgaredd trwyddedadwy gael ei gynnal - yn dal trwydded, yn unol â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau. Mae Deddf Dehongli 1978[1] yn diffinio 'person' fel "*corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol".*

Mae'n bosibl bod rhai gweithgareddau y tu allan i gwmpas y gweithgaredd trwyddedadwy, oherwydd yr esemptiadau a nodir yn rheoliad 3(4). Os felly, nid oes angen trwydded. Os cyflawnir y gweithgaredd trwyddedadwy heb drwydded, dylid cymryd camau gorfodi priodol.

Rhaid i'r deiliad trwydded fod yn berson a enwir nad yw wedi'i anghymhwyso rhag dal trwydded o dan y Rheoliadau. Mae rheoliad 12 *(personau na chânt wneud cais am drwydded*) yn nodi'r rhai na chânt wneud cais am drwydded, a phryd y caniateir i drwydded gael ei dirymu'n awtomatig ar gyfrif anghymhwysiad person neu ddirymiad trwydded arall neu orchymyn cau fel y'i Rhestrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

Y gweithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y drwydded yn cael ei chaniatáu a'i chadw'n gyfredol.

Mae rheoliad 4(5) yn caniatáu i ddeiliad trwydded awdurdodi personau eraill (gan gynnwys cyrff corfforaethol a chyrff anghorfforedig) i gyflawni'r gweithgaredd trwyddedadwy. Archwilir safleoedd, offer teithio ac os bydd angen, safleoedd arddangos, sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch trwyddedig fel rhan o'r drwydded.

**1** www.legislation.gov.uk/ukpga/1978/30/contents

Deiliad trwydded sy'n gyfrifol am sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu bodloni a rhaid iddynt gofio, os yw'r awdurdod lleol yn fodlon na chydymffurfir ag amodau'r drwydded, neu fod y Rheoliadau wedi'u torri, y caiff y drwydded ei hatal, ei hamrywio neu ei dirymu'n unochrog gan yr awdurdod lleol.

Wrth benderfynu a ddylid caniatáu neu adnewyddu trwydded ai peidio, mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod fframwaith priodol ar waith i ganiatáu i ddeiliad trwydded fod yn hyderus y bydd personau awdurdodedig yn bodloni amodau'r drwydded (gweler adran 5).

# 3. Hyd cyfnod trwydded

Caniateir i drwydded gael ei rhoi neu ei hadnewyddu am gyfnod o dair blynedd.

# 4. Caniatáu trwydded

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais a'i hanfon at yr awdurdod lleol perthnasol ynghyd â thaliad am y ffi gwneud cais. Yr awdurdod lleol perthnasol fydd yr un y mae'r gweithredwr yn preswylio ynddo fel arfer os yw'n preswylio fel arfer yng Nghymru. Yn achos AE symudol sydd fel arfer wedi'i leoli y tu allan i Gymru, rhaid i'r cais am drwydded gael ei dderbyn gan awdurdod lleol lle mae'r gweithgaredd trwyddedadwy yn digwydd.

Os yw canolfan gartref yn pontio dwy ardal awdurdod lleol, gellir gwneud y cais i'r naill awdurdod neu'r llall.

# 5. Ystyried cais i ganiatáu neu adnewyddu trwydded

Pan fydd awdurdod lleol yn cael cais i ganiatáu neu adnewyddu trwydded, rhaid iddo wneud pob un o'r canlynol cyn caniatáu neu adnewyddu trwydded:

(a) Penodi un neu fwy o arolygwyr sydd â chymwysterau addas i arolygu unrhyw safle ac offer teithio, ac os oes angen, unrhyw safleoedd arddangos os ydynt ar wahân i'r safle trwyddedig, sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy;

(b) Bodloni ei hun y bydd amodau'r drwydded yn cael eu bodloni. Rhaid i hyn gynnwys ystyried Adroddiad yr Arolygydd (rheoliad 6);

(c) Sicrhau bod unrhyw ffi briodol wedi'i thalu; a

(d) Ystyried a yw'r ymddygiad a arddangosir gan yr ymgeisydd yn dangos eu bod yn ddigon cymwys i gyflawni'r gweithgaredd trwyddedadwy ac i fodloni amodau eu trwydded.

Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi'n fanylach isod. Yn dibynnu ar y cais penodol, efallai y bydd ystyriaethau perthnasol eraill a fydd yn ffurfio rhan o'r penderfyniad.

Yn dilyn arolygiad, rhaid i'r arolygydd baratoi adroddiad, yn unol â gofynion rheoliad 6, i'w gyflwyno i'r awdurdod lleol yn dilyn yr arolygiad.

Bydd adroddiad yr arolygydd yn cynnwys gwybodaeth am y gweithredwr, unrhyw safle perthnasol, unrhyw gofnodion perthnasol, cyflwr unrhyw anifail, addasrwydd unrhyw anifail ar gyfer natur yr arddangosyn ac unrhyw fater perthnasol arall. Bydd hefyd yn nodi a yw'r arolygydd o'r farn y bydd amodau'r drwydded yn cael eu bodloni.

Rhaid talu ffi briodol cyn y gellir caniatáu neu adnewyddu trwydded. Gall y rhain gynnwys ffioedd ar gyfer ystyried y cais, y costau rhesymol a ragwelir wrth ystyried cydymffurfiaeth deiliad trwydded â'r Rheoliadau, y costau disgwyliedig rhesymol o ran gorfodi mewn perthynas â'r gweithgaredd trwyddedadwy ac unrhyw ffioedd mewn perthynas â darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru.

# 6. Arolygwyr â chymwysterau addas

Rhaid i bob arolygydd feddu ar gymwysterau addas. Gallai hyn gynnwys:

(a) aelodaeth gofrestredig o Goleg Brenhinol y Milfeddygon ("RCVS") gyda gwybodaeth addas am y rhywogaethau a gedwir yn y casgliad, ac am ofynion y rôl y maent yn ei chyflawni;

(b) Arolygydd Sw; neu

(c) unrhyw berson a all ddarparu tystiolaeth o flwyddyn o leiaf o brofiad ym maes trwyddedu ac archwilio gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid (er enghraifft, sŵau; sefydliadau bridio cŵn; siopau anifeiliaid anwes).

Cynghorir arolygwyr sy'n anghyfarwydd â rhywogaethau unigol i geisio cyngor priodol, er enghraifft gan geidwaid neu fridwyr preifat profiadol, neu unigolion sydd â'r cymwysterau priodol, gan gynnwys milfeddygon a restrwyd ar wefan Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain (BVZS).

# 7. Adnewyddu trwydded

Fel mater o arfer da, dylai awdurdodau lleol roi gwybod i bob deiliad trwydded yn ysgrifenedig dri mis cyn i'w trwydded ddod i ben y bydd angen iddynt ei hadnewyddu.

Dylai deiliad trwydded wneud cais am drwydded newydd o leiaf 10 wythnos cyn i'w trwydded bresennol ddod i ben er mwyn lleihau'r risg o weithredu'r gweithgaredd trwyddedadwy yn groes i'r Rheoliadau. Os daw trwydded i ben, rhaid gwneud cais am drwydded newydd, ac ni all y gweithgaredd trwyddedadwy barhau hyd nes y bydd y drwydded wedi'i chaniatáu.

Mae adran 5 y Canllawiau yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir adnewyddu trwydded.

Os nad yw deiliad trwydded yn bwriadu parhau â'r gweithgaredd trwyddedadwy, dylent hysbysu'r awdurdod lleol nad ydynt yn dymuno i'r drwydded gael ei hadnewyddu.

# 8. Atal, amrywio neu ddirymu trwydded

Caiff awdurdod lleol amrywio neu ddirymu trwydded ar unrhyw adeg:

(a) mewn ymateb i gais ysgrifenedig gan ddeiliad trwydded, neu

(b) ar ei liwt ei hun, gyda chydsyniad ysgrifenedig deiliad trwydded.

Nodir hyn yn rheoliad 11. Mae enghreifftiau o adegau y gallai hyn fod yn briodol yn cynnwys:

a) lle bo natur yr arddangosyn, neu'r mathau o anifeiliaid a gedwir, yn newid;

b) diwygio manylion deiliad trwydded neu'r safle sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy; neu

c) lle mae'r gweithgaredd trwyddedadwy i ddod i ben yn barhaol.

Yn ogystal â'r uchod, gall awdurdod lleol atal, amrywio neu ddirymu trwydded heb ganiatâd deiliad trwydded os yw'n fodlon:

a) na chydymffurfir ag amodau'r drwydded,

b) bod y Rheoliadau wedi'u torri,

c) bod gwybodaeth a roddwyd gan ddeiliad trwydded yn anghywir neu'n gamarweiniol, neu

d) bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu lles anifail.

Nodir hyn yn rheoliad 16.

Bydd atal neu amrywio trwydded fel arfer yn dod i rym saith diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyflwyno i ddeiliad trwydded. Os nad yw'r dyddiad hwnnw'n ddiwrnod gwaith, bydd yn dod i rym o'r diwrnod gwaith nesaf. Os yw'r ataliad dros dro neu'r amrywiad yn angenrheidiol er mwyn ddiogelu lles anifail, caiff yr awdurdod lleol bennu bod y penderfyniad yn dod i rym ar unwaith.

Rhaid hysbysu deiliad trwydded yn ysgrifenedig o'r penderfyniad i amrywio'r drwydded neu ei hatal dros dro, gan esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad, y dyddiad y daw'n weithredol, hawliau deiliad trwydded i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac unrhyw fesurau penodol y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn angenrheidiol i unioni'r sefyllfa.

Dylai'r penderfyniad i amrywio neu atal trwydded fod yn ddibynnol ar ddifrifoldeb y sefyllfa. Os bydd gweithredwr yn methu â bodloni amodau gweinyddol neu'n methu â darparu gwybodaeth pan ofynnir amdano, yna gallai hyn o bosibl arwain at atal trwydded os yw'n digwydd dro ar ôl tro.

Rhagwelir y dylid dirymu trwydded mewn achos lle darganfyddir amodau lles gwael neu y byddai yn fuddiol fel arall i les yr anifeiliaid dan sylw gael ei neilltuo o'r gweithgaredd. Gall amrywiadau ddigwydd os oes angen gwneud addasiadau, boed hynny i'r drwydded ei hun neu i'r safleoedd/anifeiliaid y cyfeirir atynt yn y drwydded.

Gellir hefyd ddirymu trwydded yn awtomatig os yw camau'n cael eu cymryd yn erbyn person, fel eu bod yn dod o fewn cwmpas y personau a restrir yn Atodlen 2.

Rhaid cyflwyno hysbysiad awdurdod lleol mewn un o dair ffordd: yn bersonol; drwy ei adael yng nghyfeiriad post hysbys cyfredol neu ddiwethaf y person, neu ei anfon yno drwy'r post; neu drwy ei anfon ar e-bost at gyfeiriad e-bost hysbys cyfredol neu ddiwethaf y person.

Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, bydd gan ddeiliad trwydded saith diwrnod gwaith i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig gan ddechrau ar y dyddiad y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad o dan reoliad 16 i atal neu amrywio'r drwydded neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, y diwrnod gwaith nesaf. Rhaid i'r rhain gael eu derbyn gan yr awdurdod lleol. Ar ôl eu derbyn, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu sut i fynd rhagddi. Pan fo deiliad trwydded wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau, nid yw'r ataliad dros dro neu'r amrywiad i ddod i rym (gweler rheoliad 17(5)) oni bai bod yr awdurdod lleol, ar ôl ystyried y sylwadau, yn atal neu'n amrywio'r drwydded. O fewn saith diwrnod gwaith, gan ddechrau ar y dyddiad y derbynnir sylwadau gan ddeiliad trwydded, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol – ar ôl ystyried y sylwadau – wneud penderfyniad ynghylch sut i symud ymlaen. Rhestrir y dewisiadau sydd ar gael yn rheoliad 17(6), sef:

a) atal neu amrywio'r drwydded,
b) diddymu ei benderfyniad i atal neu amrywio'r drwydded,

c) cadarnhau atal neu amrywio’r drwydded, a wnaethpwyd er mwyn diogelu lles anifail, neu

d) adfer y drwydded os yw wedi cael ei hatal, neu ddiddymu ei amrywiad os yw wedi cael ei hamrywio, os gwnaed hyn er mwyn diogelu lles anifail.

Os na ymatebir i sylwadau ar ôl saith diwrnod gwaith o’u derbyn, tybir bod y penderfyniad cychwynnol a wnaed gan yr awdurdod lleol wedi’i wrthdroi; mae hyn yn wir hefyd pan nad oes unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd am 28 diwrnod o ddyddiad atal trwydded yn wreiddiol.

Ni fydd modd i’r gweithgaredd trwyddedadwy barhau unwaith y bydd y gwaharddiad ar y drwydded wedi dod i rym ac ni all ailddechrau oni fydd yr awdurdod lleol yn adfer y drwydded pan mae’n fodlon bod y sail a bennwyd yn yr hysbysiad wedi cael, neu’n mynd i gael, ei unioni, neu gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, sydd â’r hawl i wrthdroi penderfyniad yr awdurdod lleol os yw o’r farn ei fod yn anghywir, neu gadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol, gyda neu heb addasiad.

Os caiff trwydded ei hatal am gyfnod sylweddol o amser, yna fel mater o arfer da, dylai’r awdurdod lleol sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio’n rheolaidd er mwyn sicrhau bod lles yr anifeiliaid yn cael ei gynnal.

Caniateir apêl gan unrhyw weithredydd nad yw’n cytuno â phenderfyniad awdurdod lleol i wrthod caniatáu neu adnewyddu trwydded. Gellir apelio hefyd os yw’r gweithredydd yn anghytuno â phenderfyniad i ddirymu neu amrywio trwydded. Rhaid cyflwyno apêl o fewn 28 diwrnod sydd yn dechrau o’r diwrnod sy’n dilyn dyddiad y penderfyniad, a rhaid eu cyflwyno i Dribiwnlys Haen Gyntaf.

# 9. Gwrthod cais am drwydded

Rhaid gwrthod trwydded os credir:

(a) nad yw’r sawl sy’n gwneud cais yn gallu bodloni amodau’r drwydded; a/neu

(b) y gallai caniatáu trwydded gael effaith negyddol ar les, iechyd neu ddiogelwch yr anifeiliaid sy’n rhan o’r arddangosyn, a diogelwch unrhyw bersonau a all ryngweithio â hwy.

Rhaid i awdurdod lleol wrthod rhoi trwydded os yw’r llety neu’r rheolaeth yn annigonol o safbwynt lles yr anifeiliaid neu o safbwynt gallu rhedeg yr arddangosyn yn briodol. Rhaid gwrthod trwydded hefyd os yw’r ymgeisydd wedi’i anghymwyso rhag dal trwydded yn ôl Atodlen 2 y Rheoliadau.

# 10. Y broses apelio

Os bydd gweithredwr yn anghytuno â phenderfyniad gan awdurdod lleol i wrthod caniatáu neu adnewyddu trwydded, neu ddirymu neu amrywio trwydded, caiff apelio i Dribiwnlys Haen Gyntaf o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod sy'n dilyn dyddiad y penderfyniad.

Pan wrthodir adnewyddu trwydded, caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ar gais a hyd nes y caiff yr apêl ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl, ganiatáu i ddeiliad trwydded barhau â'r gweithgaredd trwyddedadwy neu unrhyw ran ohono, neu atal y drwydded rhag cael ei diddymu neu ei hamrywio.

Ar apêl, gall hefyd wrthdroi neu gadarnhau penderfyniad awdurdod lleol gyda neu heb addasiad.

# 11. Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig pan ofynnir amdani:

(a) nifer y trwyddedau a ddyroddwyd ac sydd mewn grym ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy yn ei ardal,

(b) nifer y ceisiadau ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy y gwrthododd yr awdurdod lleol eu caniatáu,

(c) natur yr arddangosion a'r mathau o anifeiliaid a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy,

(d) lefel gyfartalog y ffioedd a godwyd am drwyddedau y mae wedi'u caniatáu neu wedi'u hadnewyddu ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy.

Rhaid darparu'r rhain ar ffurf electronig (neu mewn ffordd sy'n hygyrch i Weinidogion Cymru ar ffurf electronig) heb fod yn hwyrach nag un mis calendr o'r dyddiad y gofynnir am y wybodaeth.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd ofyn am ragor o wybodaeth gan awdurdodau lleol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer llywio polisi neu asesu'r cynnydd o ran gweithredu.

# 12. Arolygiadau yn ystod tymor trwydded

Bydd achosion lle y gellir cynnal archwiliadau yn ystod cyfnod y drwydded.

Gall awdurdod lleol, ar unrhyw adeg, benodi arolygydd i archwilio unrhyw safle ac offer teithio, ac os oes angen, safleoedd arddangos, sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy. Rhaid mai diben yr arolygiad yw cadarnhau a gydymffurfir ag amodau'r drwydded ai peidio, ac a yw'r awdurdod lleol yn credu bod hynny'n briodol. Wrth lunio barn ynghylch a yw arolygiad yn briodol ai peidio, mae angen i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw sylwadau a allai fod wedi'u gwneud, er enghraifft cwynion gan aelodau o'r cyhoedd, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n galw am arolygiad. Gallai hyn gynnwys derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu na chydymffurfir ag amodau trwyddedu neu fod lles yr anifeiliaid sy'n rhan o'r gweithgaredd trwyddedig mewn perygl.

Pan benodir arolygydd i'r diben hwn, rhaid i'r awdurdod lleol gyfleu diben a chwmpas yr arolygiad i'r arolygydd ac i weithredydd y gweithgaredd trwyddedadwy. Rhaid i'r arolygydd ddarparu adroddiad i'r awdurdod lleol sy'n ymdrin â phwrpas a chwmpas yr arolygiad ac sy'n datgan a yw'r arolygydd yn credu y cydymffurfir ag amodau'r drwydded ai peidio.

Yn ystod arolygiad, gall yr arolygydd gymryd samplau i'w profi mewn labordy, os bydd hyn o gymorth i benderfynu a gydymffurfir ag amodau'r drwydded ai peidio. Caniateir cymryd samplau o unrhyw anifail ar safle a bennir yn y drwydded y mae'r gweithgaredd trwyddedadwy wedi'i awdurdodi ar ei gyfer, neu safle y mae'r arolygydd yn credu'n rhesymol fod y gweithgaredd trwyddedadwy yn cael ei gyflawni. Rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan arolygydd i hwyluso'r broses o adnabod, archwilio a samplu anifail, gan gynnwys sicrhau bod ataliadau addas yn cael eu darparu os gofynnir amdanynt.

# 13. Marwolaeth deiliad trwydded

Os bydd deiliad trwydded yn marw, mae'r weithdrefn yn rheoliad 13 o'r Rheoliadau yn gymwys. Mae'n caniatáu i'r drwydded gael ei throsglwyddo dros dro i gynrychiolydd personol yr ymadawedig ar yr amod ei fod yn hysbysu'r awdurdod lleol o fewn 28 diwrnod o'r farwolaeth mai ef bellach yw'r deiliad trwydded. Yna bydd y drwydded yn aros yn ei lle am dri mis ar ôl marwolaeth y cyn-ddeiliad neu am weddill yr amser roedd i fod i barhau mewn grym os yw'r cyfnod amser hwnnw'n fyrrach. Os bydd y cynrychiolwyr personol yn gwneud cais am ymestyn y drwydded am hyd at dri mis ar ôl y dyddiad hwn, caiff yr awdurdod lleol estyn cyfnod y drwydded os yw'n fodlon fod hyn yn briodol, ac yn angenrheidiol er mwyn dirwyn yr ystâd i ben.

Os nad yw'r cynrychiolydd personol yn hysbysu'r awdurdod lleol o fewn 28 diwrnod o farwolaeth deiliad trwydded, bydd grym y drwydded yn terfynu ar ôl y 28 diwrnod hynny.

# 14. Pwerau mynediad

Caiff arolygydd gynnal arolygiad i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Wrth gynnal archwiliad o'r fath, caiff yr arolygydd fynediad i safle a bennir yn y drwydded fel safle lle mae'r gwaith o gynnal gweithgaredd wedi'i awdurdodi, neu safle lle y mae'r arolygydd yn credu'n rhesymol bod y gweithgaredd trwyddedadwy yn cael ei gyflawni. Gall arolygydd gael mynediad i rannau o'r safle nad ydynt yn annedd breifat heb rybudd. Ni chaiff arolygydd fynd i mewn i unrhyw ran o'r safle a ddefnyddir fel annedd breifat oni bai bod 24 awr o rybudd yn cael ei roi i'r meddiannydd ynghylch y mynediad arfaethedig.

Gall ynad heddwch (JP) godi gwarant sy'n awdurdodi arolygydd neu gwnstabl i fynd i mewn i safle ar gais arolygydd neu gwnstabl, gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, i chwilio am dystiolaeth bod trosedd wedi'i chyflawni.

Dim ond os yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu bod trosedd berthnasol wedi'i chyflawni ar y safle y gall yr ynad heddwch roi gwarant, neu fod tystiolaeth o gyflawni trosedd berthnasol i'w chael ar y safle, a bod adran 52 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 wedi'i bodloni mewn perthynas â'r safle.

Mae ystyriaethau eraill o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 hefyd yn berthnasol.

## 15. Troseddau

Mae’n drosedd torri unrhyw un o amodau’r drwydded. Mae’n drosedd hefyd i beidio â chydymffurfio â chais arolygydd yn y broses o gymryd sampl o anifail. Dylai samplau fod mor anfewnwthiol â phosibl ond efallai y bydd arolygwyr yn barnu bod angen samplau mwy ymwthiol os oes pryderon ynghylch lles yr anifeiliaid. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer samplu wedi’i hanelu’n bennaf at filfeddygon sy’n cynnal arolygiadau ac ni ddisgwylir i’r samplau gael eu cymryd gan bobl nad ydynt yn gymwys i wneud hynny’n ddiogel.

Mae hefyd yn drosedd rhwystro arolygydd sydd wedi’i benodi gan awdurdod lleol i orfodi’r Rheoliadau. Gallai cyflawni’r naill neu’r llall o’r troseddau hyn arwain at ddirwy ddiderfyn.

Mae unrhyw un sy’n cyflawni’r gweithgaredd trwyddedadwy heb drwydded yn agored i garchar am dymor o hyd at chwe mis, dirwy neu’r ddau. Mae adran 30 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn caniatáu i awdurdodau lleol erlyn unrhyw droseddau o dan y Ddeddf honno.

## 16. Pwerau ôl-euogfarn

Mae’r pŵer ôl-euogfarn yn adran 34 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gymwys mewn perthynas â chollfarn am drosedd o dan reoliad 21. Mae hyn yn caniatáu i Lys, yn ogystal â’r mecanweithiau eraill sydd ar gael, wneud gorchymyn sy’n anghymhwyso person a gollfarnwyd o drosedd rhag bod yn berchen ar, cadw, cymryd rhan mewn cadw anifeiliaid, a rhag bod yn barti mewn trefniant lle gallant reoli neu ddylanwadu ar y ffordd y mae anifail yn cael ei gadw. Ni fyddant yn cael cludo na masnachu anifeiliaid. Caiff gorchymyn sy’n anghymhwyso rhywun barhau am gyfnod sy’n cael ei ystyried yn addas gan y llys. Mae torri’r anghymwysiadau hyn yn drosedd.

Mae’r pŵer ôl-euogfarn yn adran 42 o’r Deddf Lles Anifeiliaid 2006 hefyd yn gymwys, lle y gall llys ganslo trwydded sy’n bodoli eisoes ac anghymhwyso person rhag bod yn berchen ar drwydded am unrhyw gyfnod y mae’n ei ystyried yn addas os caiff y person hwnnw ei ddyfarnu’n euog o drosedd o dan y Ddeddf.

## 17. Pennu ffioedd

Dylai awdurdodau lleol ystyried ‘Open for Business: LGA Guidance on Locally Set Licence Fees’[2], sy’n nodi’r camau y mae’n rhaid eu cymryd i bennu ffioedd teg a rhesymol. Bydd y costau rhesymol a ragwelir yn benodol i ffeithiau ac yn dibynnu ar awdurdodau lleol unigol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried canllawiau’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ‘Guidance on the Provision of Service Regulations’[3].

---

**2** https://www.local.gov.uk/open-business-lga-guidance-locally-set-licence-fees

**3** https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/791129/provision-services-regulations-2018-guidance.pdf

# 18.  Gweithgareddau sy’n dod o dan y ffioedd trwyddedu

Mae rheoliad 14 o’r Rheoliadau yn nodi’r hyn y caiff awdurdod lleol godi ffioedd amdano:

(a) costau ystyried cais, gan gynnwys unrhyw arolygiad sy’n ymwneud â’r ystyriaeth honno;

(b) costau disgwyliedig rhesymol ystyried cydymffurfiad deiliad trwydded â’r Rheoliadau ac amodau’r drwydded y mae deiliad trwydded yn ddarostyngedig iddynt. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw arolygiadau pellach sy’n ymwneud â chydymffurfiaeth;

(c) costau rhesymol disgwyliedig gorfodi mewn perthynas â gweithgaredd trwyddedadwy gweithredydd didrwydded; a

(d) costau disgwyliedig rhesymol yr awdurdod lleol wrth gasglu a chyflwyno’r data sy’n ofynnol gan reoliad 30 i Weinidogion Cymru.

# Adran 2

## Beth sydd oddi mewn a thu hwnt i'r cwmpas

### Rhywogaethau

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau) wedi'u llunio trwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 13 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a rhannau 1 a 3 o Atodlen 1 iddi[4]. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i bob anifail a warchodir o dan y Ddeddf honno.

Mae adran 1 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn diffinio "anifail" fel:

*"creadur ag asgwrn cefn nad yw'n ddynol".*

Mae adran 2 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi bod anifail yn "anifail a warchodir" at ddibenion y Ddeddf:

*(a) os ei fod o fath sydd fel arfer wedi'i ddomestigeiddio yn Ynysoedd Prydain,*

*(b) os yw o dan reolaeth dyn, boed hynny ar sail barhaol neu dros dro, neu*

*(c) os nad yw'n byw mewn cyflwr gwyllt*

Mae gwaharddiadau caeth yn gymwys i rai rhywogaethau anfrodorol goresgynnol (INNS) (y rhai a restrir o dan Reoliad (UE) 1143/2014[5] yn ymwneud â rhywogaethau goresgynnol estron). Mae'r gwaharddiadau hyn yn golygu na all y rhywogaethau rhestredig gael eu mewnforio'n gyfreithlon i'r UE, eu cadw, eu magu, eu cludo, eu rhoi ar y farchnad, eu defnyddio neu eu cyfnewid, caniatáu iddynt atgenhedlu, eu tyfu neu eu hamaethu, neu eu rhyddhau i'r amgylchedd. O'r dyddiad y daw Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019[6] i rym, ni chaniateir defnyddio'r rhywogaethau rhestredig fel rhan o AE mwyach. Mae'r anifeiliaid hyn yn cynnwys ceirw mwntjac, coatïaid cynffondorch, coipwaid, racwniaid, racŵn-gŵn, gwiwerod llwyd a gwiwerod rhesog Siberia.

**4** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/pdfs/ukpga_20060045_en.pdf
**5** http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/527/contents/made/welsh
**6** http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/527/contents/made/welsh

## Diffiniad

Er mwyn penderfynu os yw gweithgaredd yn weithgaredd trwyddedadwy (licensable activity), mae Rheoliad 3(1) yn dweud mai ystyr 'gweithgaredd trwyddedadwy' yw:

**1.** At ddibenion penderfynu a yw gweithgaredd yn "weithgaredd trwyddedadwy", mae "gweithgaredd trwyddedadwy" yn golygu—

(a) cadw anifeiliaid yng Nghymru lle mae'r anifeiliaid hynny'n cael eu defnyddio ar gyfer arddangos at ddibenion addysg neu adloniant,

(b) hyfforddi anifeiliaid yng Nghymru lle mae'r anifeiliaid hynny'n cael eu defnyddio ar gyfer arddangos at ddibenion addysg neu adloniant, neu

(c) arddangos anifeiliaid yng Nghymru at ddibenion addysg neu adloniant.

(2) Gellir cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy gyda thâl neu yn ddi-dâl.

(3) Mae arddangos anifeiliaid at ddibenion y gweithgaredd trwyddedadwy yn cynnwys –

(a) arddangos anifeiliaid i unrhyw gynulleidfa sy'n mynychu yn bersonol, a

(b) recordio delweddau gweledol o'r anifeiliaid trwy gyfrwng unrhyw fath o dechnoleg sy'n galluogi dangos delweddau o'r fath.

(4) Nid yw'r gweithgaredd trwyddedadwy yn cynnwys—

(a) cadw anifeiliaid at ddiben ffermio llaeth a bridio a chadw da byw yn bennaf,

(b) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddiben milwrol neu at ddefnydd yr heddlu,

(c) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddibenion chwaraeon,

(d) anifeiliaid sy'n arddangos ymddygiad a ddysgwyd at ddibenion gwaith,

(e) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded sw yn unol â Deddf Trwyddedu Sŵau 1981[7],

(f) cadw siop anifeiliaid anwes o dan drwydded a roddwyd o dan adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951[8], neu

(g) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded ar gyfer canolfannau marchogaeth o dan Ddeddf Sefydliadau Marchogaeth 1964[9].

At ddibenion y rheoliad hwn, mae "da byw" yn cynnwys unrhyw greadur a gedwir ar gyfer cynhyrchu bwyd, gwlân, crwyn neu ffwr, neu at ddibenion ei ddefnyddio wrth ffermio tir.

## Gweithgaredd trwyddedadwy

Os yw AE yn dod o fewn cwmpas gweithgaredd trwyddedadwy, er mwyn i'r arddangosyn hwnnw gael ei gynnal yn gyfreithiol, bydd angen trwydded.

---

**7** www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/contents
**8** www.legislation.gov.uk/ukpga/6/14/contents
**9** www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/70/contents

Os yw AE yn dod o fewn cwmpas gweithgaredd wedi'i esemptio, ni fydd angen trwydded.

## Enghreifftiau

Mae AE yn amrywiol, o ran maint a natur, gydag ystod eang o anifeiliaid yn cael eu defnyddio. Dylai arolygwyr awdurdodau lleol ymdrin â thrwyddedu ar sail unigol, gan ystyried pob AE yn ôl ei haeddiant cyn dod i benderfyniad ynghylch a yw'n disgyn o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu enghreifftiau o'r math o weithgarwch y dylid neu na ddylid ei ystyried o fewn cwmpas y Rheoliadau. Am y rhesymau a nodir uchod, nid yw'r rhain yn rhwym mewn cyfraith a dylid eu defnyddio at ddibenion cyfeirio yn unig.

**<u>Gweithgareddau oddi mewn i'r cwmpas</u>**

**Gallai unrhyw sefydliad neu berson sy'n cadw neu'n hyfforddi anifeiliaid i'w arddangos, naill ai at ddibenion adloniant neu addysgol, fod yn gymwys i'w trwyddedu. Gallai'r gweithgareddau gynnwys:**

**1. AE symudol.**
Arddangosyn sy'n teithio o le i le i arddangos anifeiliaid, er enghraifft, mewn ysgolion, priodasau, partïon preifat, ffeiriau a digwyddiadau eraill lle mae cynulleidfa yn bresennol. Gallant ddychwelyd i leoliad parhaol bob nos; gall eraill fod yn fwy crwydrol eu natur.

**2. Partïon merlod.**
Dim ond pan na fydd y merlod/ceffylau yn cael eu reidio y mae hyn yn berthnasol. Lle caiff merlod/ceffylau eu marchogaeth, dylent ddod o dan gwmpas Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a chael eu heithrio o'r cynllun trwyddedu AE.

**3. Unrhyw sefydliad neu berson sy'n cadw neu'n hyfforddi anifeiliaid ar gyfer arddangos trwy gyfryngau electronig.**
Gallai hyn gynnwys anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio mewn ffilmiau neu deledu, neu mewn fideos ar-lein.

**4. Arddangos anifeiliaid mewn syrcas[10].**
Y defnydd o anifeiliaid mewn syrcasau.

**5. Unrhyw sefydliad neu berson sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru a ddaw ag anifail i Gymru i'w arddangos.**

---

**10** Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Gorffennaf 2019. Diben y Bil yw ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid dof mewn syrcasau teithiol, ac ni fydd ychwaith yn atal anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio ar gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill.

Rhaid i awdurdod lleol dderbyn cais am drwydded os oes gan yr anifeiliaid ganolfan gartref (ble maent yn mynd i orffwys).

**6. Arddangosfeydd adar ysglyfaethus.**
Byddai hyn yn cynnwys arddangos ar y clwydi neu ar fenyg, yn ogystal ag arddangosiadau hedfan, os yw'r rhain at ddibenion addysg neu adloniant. Ni fyddai'n cynnwys hela traddodiadol (oni bai bod cynulleidfa'n bresennol), ac ni fyddai'n cynnwys achosion lle'r oedd yr adar yn dangos ymddygiad a addysgir at ddibenion gweithio (e.e. rheoli plâu).

**7. Deiliaid trwyddedau anifeiliaid gwyllt peryglus sy'n cadw neu'n hyfforddi anifeiliaid i'w harddangos, neu'n arddangos yr anifeiliaid hynny, naill ai at ddibenion addysg neu adloniant.**
Dylid rhoi ystyriaeth i'r rhywogaethau sy'n cael eu defnyddio a natur yr arddangosyn, gan ystyried lles yr anifail a diogelwch y cyhoedd. Os bwriedir i'r arddangosyn fod yn symudol, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol o leiaf saith niwrnod cyn i'r anifail gael ei symud. Fe'ch cynghorir i sicrhau amod ar y drwydded anifeiliaid gwyllt peryglus sy'n pennu'r paramedrau ar gyfer natur yr arddangosyn.

**8. AE y rhoddwyd goddefeb iddo o dan adran 14(1)(a) o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981.**
Os caniateir gweithgaredd o dan drwydded sw, mae y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau ac nid oes angen trwydded arno. Fodd bynnag, os gwneir cyfarwyddyd sy'n datgan nad oes angen trwydded sw, byddai angen ystyried y sefyllfa er mwyn penderfynu a oedd angen trwydded o dan y Rheoliadau hyn. I'r gwrthwyneb, pe bai casgliad anifeiliaid y deiliad trwydded yn newid er mwyn ei gwneud yn ofynnol cael trwydded sw, byddai rheoliad 11 yn gymwys a gall y drwydded AE gael ei dirymu naill ai ar gais deiliad trwydded neu gyda'i ganiatâd.

**9. Colegau amaethyddol neu ofal anifeiliaid.**
Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid sy'n cael eu harddangos at ddiben addysgu myfyrwyr am ofal a rheolaeth anifeiliaid a gallent gynnwys anifeiliaid anwes a da byw, yn ogystal â rhywogaethau egsotig. Nid yw hyn yn berthnasol pan fo casgliad anifeiliaid yn bodloni esemptiad o dan reoliad 3(2)(a).

**10. Caffis ar thema anifeiliaid (parhaol a thros dro).**
Mae hyn yn ymwneud â busnesau sydd ag anifeiliaid byw sydd ar gael i'w cwsmeriaid fynd ati i'w trin a'u mwytho – er enghraifft, caffis cathod. Ni fyddai hyn yn cynnwys achosion lle caiff anifeiliaid eu cadw at ddibenion addurnol (gweler 'Gweithgareddau tu hwnt i'r cwmpas').

## Gweithgareddau y tu hwnt i'r cwmpas

**Unrhyw sefydliad neu berson sy'n cadw neu'n hyfforddi anifeiliaid ar gyfer arddangosfa sydd naill ai ddim at ddibenion adloniant neu addysg, neu wedi'u hesemptio gan reoliad 3. Gallai hyn gynnwys:**

**1. Trefnydd digwyddiadau, neu asiant sy'n trefnu'r arddangosfa o anifeiliaid, ond nad yw'n berchen arnynt nac yn eu hyfforddi eu hunain ac felly sydd â chyswllt cyfyngedig neu ddim cysylltiad â'r anifeiliaid.**
Efallai y bydd rhaid i gyfranogwyr unigol sy'n arddangos anifeiliaid gael trwydded, ond nid oes angen trwydded ar y trefnydd/asiant gan nad ydynt yn gyfrifol am yr anifeiliaid sy'n cael eu harddangos. Gall sioe fod angen trwydded o dan Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010[11] lle bo hynny'n berthnasol, a lle nad yw'r anifeiliaid a ddangosir yn tarddu o'r un safle. Dylai trefnwyr y sioe wneud eu hunain yn ymwybodol o ofynion y cynllun trwyddedu a gofyn am gopi o drwydded AE cyn cadarnhau eu hymddangosiad. Os canfyddir achosion o ddiffyg cydymffurfio, dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn un o ofynion y Rheoliadau.

**2. Anifeiliaid a gedwir yn bennaf at ddiben ffermio llaeth a bridio a chadw da byw.**

At ddibenion y rheoliad hwn, mae "da byw" yn cynnwys unrhyw greadur a gedwir ar gyfer cynhyrchu bwyd, gwlân, crwyn neu ffwr, neu at ddibenion ei ddefnyddio wrth ffermio tir. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, anifeiliaid mewn marchnadoedd da byw ac arddangosfeydd o stoc bridio. Gallai hefyd gynnwys achosion lle mae da byw yn cael eu cadw mewn ffordd draddodiadol ond sydd o bosibl yn weladwy i aelodau o'r cyhoedd (e.e. mewn tai gwyliau neu goleg amaethyddol lle nad yw'r anifeiliaid wedi'u hyfforddi i wneud unrhyw beth na fyddent yn ei wneud pe byddent yn cael eu cadw at ddibenion amaethyddol arferol).

**3. Anifeiliaid a arddangosir at ddibenion addurnol.**
Byddai hyn yn cynnwys arddangosiadau goddefol megis tanc pysgod mewn bwyty neu bwll pysgod mewn gardd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Er mwyn cael eu heithrio o'r Rheoliadau, ni ddylai'r arddangosyn gael ei hysbysebu i'r cyhoedd mewn unrhyw ffordd.

**4. Anifeiliaid a gedwir yn bennaf fel anifeiliaid anwes.**
Rhaid i arolygwyr fod yn fodlon, pan fydd anifail anwes yn cael ei arddangos, bod hyn yn annhebygol o fod yn weithgarwch parhaus. Mae enghreifftiau'n cynnwys cŵn anwes wedi'u harddangos mewn sioeau cŵn lleol unwaith neu ddwy'r flwyddyn at ddibenion hamdden, asynnod mewn dramâu'r geni; gweithgareddau 'dangos a dweud' gan blant mewn ysgolion.

**5. Digwyddiadau preifat lle na wahoddir cynulleidfaoedd neu lle bwriedir iddynt weld anifeiliaid.**
Gallai hyn gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn gyhoeddus os gellir tybio'n foddhaol neu ddangos tystiolaeth nad oes disgwyl cynulleidfa, megis helfeydd heboga traddodiadol.

---
**11** http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/900/contents/made/welsh

**6. Hyfforddi neu arddangos anifeiliaid at ddibenion milwrol neu at ddefnydd yr heddlu.**
Gallai hyn gynnwys arddangosiadau mewn sioeau amaethyddol, lle mae'r diben yn gysylltiedig ag arddangos y sgiliau a ddysgwyd gan yr anifail at ddibenion gweithio (er enghraifft, gorfodi'r gyfraith neu achub bywyd).

**7. Hyfforddi neu arddangos anifeiliaid at ddibenion chwaraeon.**
Bwriedir i hyn gynnwys chwaraeon trefnedig megis rasio ceffylau, rasio milgwn, ystwythder cŵn a chystadlaethau tebyg eraill a welir yn gyffredin mewn sioeau amaethyddol. Ni fwriedir i hyn gynnwys chwaraeon difyrrwch lle na chaiff yr anifeiliaid eu bridio na'u cyflyru at ddibenion chwaraeon, er enghraifft rasio defaid neu ffuredau, a fyddai'n gofyn am drwydded.

**8. Arddangos anifeiliaid sy'n dangos ymddygiad dysgedig a addysgir at ddibenion gwaith.**
Gallai hyn gynnwys treialon cŵn defaid; arddangosfeydd cŵn adara a helgwn; gyrru cerbydau ceffyl; anifeiliaid cymorth neu therapi.

**9. Sŵau trwyddedig**
Os caniateir gweithgaredd o dan drwydded sw, mae y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau ac nid oes angen trwydded arno. Mae hyn yn cynnwys sŵau sydd â goddefiadau o dan adrannau 14(1)(b) ac 14(2) o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981.

**10. Sefydliadau marchogaeth trwyddedig.**
Nid yw hyn yn atal trwyddedu gweithgareddau eraill a gyflawnir gan y gweithredwr os yw'n bodloni'r meini prawf trwyddedu. Er enghraifft, gall sefydliad marchogaeth fod yn un agwedd ar fusnes ehangach sydd hefyd yn cynnwys arddangosfa fferm neu arddangosiad adar ysglyfaethus.

# Trosolwg o’r amodau a’r canllawiau esboniadol

Mae’r adran ganlynol yn amlinellu’r amodau y mae’n rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn derbyn trwydded ar gyfer y gweithgaredd o gadw neu hyfforddi anifeiliaid ar gyfer arddangosfa. Mae AE yn amrywio’n fawr ac, yn y pen draw, bydd elfen o farn ynghlwm ag asesu a yw amodau trwydded wedi’u bodloni, neu y gellid cydymffurfio â hwy.

Mae’r amodau a nodir yn Atodlen 1 o’r Rheoliadau i’w cael mewn blychau ac mewn **testun trwm** trwy’r ddogfen hon, tra bod nodiadau’r canllawiau esboniadol wedi’u darparu fel pwyntiau bwled.

Mae rhifau’r paragraffau yn y rhannau canlynol o’r ddogfen ganllaw hon yn ymwneud â rhifo’r amodau yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau.

# Amodau'r drwydded (Atodlen 1 i'r Rheoliadau)

## 1. Arddangos trwydded

***Amodau*** *(mae rhifau'r paragraffau'n ymwneud â'r rhifo yn y Rheoliadau)*
**1(1) Rhaid i gopi o'r drwydded fod ar gael pa le bynnag y cyflawnir y gweithgaredd trwyddedadwy.**

**1(2) Rhaid arddangos enw deiliad trwydded, ac yna rif trwydded deiliad trwydded, yn glir ac yn amlwg ar unrhyw wefan a ddefnyddir mewn perthynas â'r gweithgaredd trwyddedadwy.**

***Canllawiau***

- Rhaid cadw copi o'r drwydded yn y safle trwyddedig.

- Pan fydd anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn lleoliad parhaol, rhaid arddangos y drwydded yn glir, megis wrth y fynedfa neu yn nerbynfa'r arddangosfa.

- Rhaid mynd â chopi ar wahân o'r drwydded i arddangosion pan fo'r rhain yn cael eu cynnal mewn mannau eraill.

## 2. Cofrestri, cofnodion, rhestrau a hysbysiadau

***Amod***
**2(1) Rhaid cadw cofrestr o bob anifail a arddangosir neu sydd i'w arddangos a rhaid iddo gynnwys –**

**(a) enw llawn ei gyflenwr,**

**(b) ei ddyddiad geni,**

**(c) y dyddiad y mae'n cyrraedd gyda deiliad trwydded,**

**(d) ei enw (os yw'n gymwys), oedran, rhyw, statws niwtro, disgrifiad a rhif microsglodyn neu fodrwy (os yw'n gymwys),**

**(e) enw a manylion cyswllt milfeddyg arferol yr anifail a manylion unrhyw yswiriant sy'n ymwneud ag ef,**

**(f) os yw'r anifail yn teithio i ffwrdd o'i gartref, enw a manylion cyswllt milfeddyg sy'n lleol i'r digwyddiad arddangos,**

**(g) manylion hanes meddygol ac ymddygiadol perthnasol yr anifail gan gynnwys manylion unrhyw driniaeth a roddwyd yn erbyn parasitiaid ac unrhyw gyfyngiadau ar ymarfer corff neu ddeiet,**

**(h) cofnod o ddyddiad neu ddyddiadau'r brechiad, moddion llyngyr a thriniaethau chwain diweddaraf yr anifail,**

**(j) y pellter a'r amser y mae'n ei gymryd i deithio i bob digwyddiad arddangos ac oddi yno, a**

**(j) dyddiad ei ymadawiad oddi wrth ddeiliad trwydded, a'r rheswm dros adael (er enghraifft, ailgartrefu, ymddeoliad neu farwolaeth).**

***Canllawiau***

- Os nad oes angen brechiad, triniaeth llyngyr neu driniaeth chwain ar yr anifail, rhaid datgan hyn.
- Os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys, rhaid cofnodi'r rheswm am hynny.
- Yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r wybodaeth a gedwir yn y cofnodion hyn fod yn ddigon manwl i fod o ddefnydd ymarferol i ddeiliad trwydded ac unrhyw unigolion eraill sy'n ymwneud â'r gweithgaredd trwyddedadwy.

*Amod*
**2(2) Rhaid i'r deiliad trwydded gadw rhestr o bob anifail sy'n cael ei gadw, neu ei hyfforddi, ar gyfer ei arddangos gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol i adnabod yr anifail hwnnw'n unigol (gan gynnwys ei enwau cyffredin a gwyddonol) a rhaid rhoi copi o'r rhestr i'r awdurdod lleol ac unrhyw newid iddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y newid.**

*Canllawiau*

- Os oes mathau newydd o anifeiliaid yn cael eu caffael ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy nad ydynt wedi'u nodi ar y drwydded, neu os yw nifer y math penodol o anifail yn fwy na'r nifer ar y drwydded, rhaid i'r deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig, yn ddelfrydol drwy ddull electronig. Ni ddylai hyn arwain at arolygiad ychwanegol oni bai bod y newidiadau yn rhai arwyddocaol.

- Mae angen y rhestr hon at ddibenion cyfeirio yn unig ac ni ddisgwylir iddi gynnwys manylion y tu hwnt i'r hyn a ragnodir yn y cyflwr.

*Amod*
**2(3) Rhaid cadw cofnod o'r adegau y mae'r anifeiliaid yn cael eu harddangos a rhaid rhoi polisi cylchdroi anifeiliaid ar waith i sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael digon o orffwys rhwng ac yn ystod digwyddiadau arddangos.**

*Canllawiau*

- Dylai hyn gynnwys:
    - Dyddiad yr arddangosyn;
    - Amser yr arddangosyn;
    - Hyd yr eitem (cyrraedd amser gadael);
    - Math o arddangosyn;
    - Anifeiliaid a ddefnyddir mewn arddangosyn;
    - Lleoliad yr arddangosyn;
    - Pellter/amser teithio i arddangosyn o safle trwyddedig.

- Rhaid cadw nodyn o'r amser yn gweithio, amser gorffwys a chamau gweithredu. Byddai hyn yn cofnodi sylwadau ynghylch ymddygiad, anaf, unrhyw fath o broblem.

- Rhaid cadw cofnod ar gyfer pob anifail unigol yn nodi pa mor aml, a faint o amser y caiff ei ddefnyddio mewn unrhyw arddangosyn, a'r cyfnodau gorffwys clir yn yr amgylchedd cartref a nodir.

- Rhaid i anifeiliaid gael seibiannau clir o arddangosion sy'n eu galluogi i ymddwyn yn normal gan gynnwys cysgu, bwydo, ysgarthu a chwarae ac ni ddylid eu defnyddio'n barhaus.

***Amod***
**2(4) Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o symudiad unrhyw anifail gwyllt peryglus (fel y'i dosbarthwyd o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976[12]) mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy i'r awdurdod lleol o leiaf saith niwrnod cyn bod y symud yn digwydd.**

***Canllawiau***

- Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys y dyddiad a'r cyfnod amser bras y bydd yr anifail i ffwrdd o'r safle trwyddedig dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, ac enw, cyfeiriad a chod post safle'r arddangosfa.

- Rhaid darparu copi hefyd o'r asesiad risg, fel sy'n ofynnol yn ôl amod trwydded 9(21).

- Dylid ystyried methiant i hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw symudiad at y diben hwn fel achos o dorri amodau'r drwydded.

- Rhaid darparu manylion am unrhyw safle neu safleoedd lle bydd yr anifeiliaid trwyddedig yn ymweld â hwy, waeth a yw'r anifeiliaid yn cael eu harddangos yn y lleoliadau hyn ai peidio.

- Nid oes angen hysbysu'r awdurdod lleol am symudiadau anifeiliaid nad ydynt wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.

***Amodau***
**2(5) Rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau bod yr holl ddogfennau y mae'n ofynnol i ddeiliad trwydded eu cadw fel amod o'r drwydded ar gael ar unrhyw adeg i'w harchwilio gan arolygydd ar ffurf weladwy a darllenadwy neu, pan fo unrhyw ddogfennaeth o'r fath yn cael ei storio mewn ffurf electronig, ar ffurf y gellir eu cynhyrchu'n hawdd ar ffurf weladwy a darllenadwy.**

**2(6) Rhaid i'r deiliad trwydded gadw pob dogfennaeth o'r fath am o leiaf dair blynedd gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd y cofnod ei greu.**

**2(7) At ddibenion y paragraff hwn, mae "dogfennaeth" yn cynnwys unrhyw gofrestri, cofnodion a rhestri a gedwir mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy.**

***Canllawiau***

- Rhaid gwneud copi wrth gefn o gofnodion electronig yn rheolaidd.

---
**12** www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/38/contents

## 3. Defnydd, nifer a’r math o anifail

***Amod***
**3 Ni chaniateir defnyddio anifeiliaid na mathau o anifail ac eithrio’r anifeiliaid hynny a’r mathau o anifeiliaid a bennir yn y drwydded mewn perthynas â’r gweithgaredd trwyddedadwy.**

***Canllawiau***

- Rhaid i’r drwydded nodi’n glir uchafswm pob rhywogaeth neu grŵp o rywogaethau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gweithgaredd, ac eithrio pysgod.

- Gall deiliad trwydded gadw o dan yr uchafswm o anifeiliaid heb hysbysu’r awdurdod lleol ond rhaid iddo’i hysbysu os bwriedir mynd dros yr uchafswm hwn.

- Rhaid peidio ag arddangos unrhyw anifeiliaid sy’n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes sydd heb eu cynnwys yn y drwydded.

## 4. Staffio

***Amod***
**4(1) Rhaid bod niferoedd digonol o bobl sy’n gymwys at y diben ar gael i ddarparu lefel o ofal sy’n sicrhau bod anghenion lles pob anifail a gwmpesir gan y drwydded yn cael eu bodloni.**

***Canllawiau***

- Os yw person nad yw’n ddeiliad trwydded yn ymwneud â’r gweithgaredd trwyddedadwy, boed fel aelod cyflogedig o’r staff, contractwr, gwirfoddolwr neu drefniant arall, dylai deiliad trwydded gadw cofnod ysgrifenedig i’w awdurdodi i wneud y gweithgaredd trwyddedadwy ar eu rhan.

- Ni chaniateir i unrhyw anifail gael ei gadw na’i hyfforddi ar gyfer arddangosfa, na’i arddangos, oni bai bod y personau sy’n ymwneud â’r gweithgaredd trwyddedadwy yn gymwys o ran gofal a lles yr anifeiliaid a arddangosir a bod ganddynt gymhwyster cydnabyddedig a/neu brofiad/hyfforddiant addas a dangosadwy, gan gynnwys gweithio o fewn yr amgylchedd arddangos dan sylw (er enghraifft set ffilm, AE symudol, neu theatr).

- Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sy’n cadw rhywogaethau sy’n beryglus i iechyd dynol (er enghraifft, nadroedd fenymig) sicrhau bod y bobl sy’n gofalu am yr anifeiliaid a/neu’n eu dangos wedi cael eu hyfforddi i reoli rhywogaethau penodol ac ar gael bob amser.

- Rhaid darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw bersonau sy’n ymwneud â’r gweithgaredd trwyddedadwy o ran darparu gofal iechyd a’r gweithdrefnau i’w dilyn yn achos digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw anifail o’r fath.

***Amod***
**4(2) Rhaid i ddeiliad trwydded ac unrhyw berson sy’n gofalu am yr anifeiliaid fod â chymhwysedd i nodi ymddygiad arferol y rhywogaeth y maent yn gofalu amdani ac i adnabod arwyddion o boen, dioddefaint, anaf, afiechyd neu ymddygiad annormal, a chymryd mesurau priodol i liniaru neu atal hynny.**

***Canllawiau***

- Mae’n rhaid cynnal hyfforddiant addas a digonol ar gyfer unigolion sy’n ymwneud â gofal anifeiliaid a/neu’r arddangosfa ei hun, a darparu tystiolaeth o hynny, yn y meysydd canlynol:
    - Lles anifeiliaid, gan gynnwys adnabod lles gwael;
    - Trin anifeiliaid;
    - Ymddygiad anifeiliaid;
    - Glendid a hylendid, gan gynnwys defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol (PPE) lle bo angen;
    - Bwydo a pharatoi bwyd;
    - Rheoli clefydau a milheintiau;
    - Adnabod anifeiliaid sâl ac annormaleddau.

***Amod***

**4(3) Rhaid i'r deiliad trwydded ddarparu a sicrhau gweithredu polisi hyfforddi ysgrifenedig ar gyfer pob person sy'n gofalu am yr anifeiliaid.**

***Canllawiau***

- Rhaid i'r polisi hyfforddi gael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn neu yn dilyn unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau, a rhaid iddo gynnwys:
    - gwerthusiad blynyddol
    - cynllun datblygu proffesiynol parhaus
    - adnabod bylchau gwybodaeth
    - defnyddio cyrsiau a llenyddiaeth ar-lein

- Bydd hyn yn gymwys i unrhyw bersonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd trwyddedadwy a gellir ei ddangos drwy gymryd rhan mewn cyrsiau, dysgu ysgrifenedig neu ddysgu ar-lein, gwybod y diweddaraf am unrhyw ymchwil neu ddatblygiadau ar gyfer rhywogaethau penodol a chofnodi'r gwerthusiad blynyddol.

- Os nad oes unrhyw berson arall yn ymwneud â'r gweithgaredd trwyddedadwy, mae'n rhaid i ddeiliad trwydded ddangos ei ddatblygiad gwybodaeth ei hun.

- Rhaid darparu tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i fynychu neu wedi'i gwblhau gan bawb sy'n ymwneud â'r gweithgaredd trwyddedadwy.

## 5. Amgylchedd addas

***Amod***

**5(1) Rhaid i bob ardal, cyfarpar ac offer y mae gan yr anifeiliaid fynediad iddynt beri'r risg lleiaf posibl o anaf, salwch a dianc a rhaid iddynt gael eu hadeiladu gyda deunyddiau sy'n gadarn, yn ddiogel ac yn wydn, a bod mewn cyflwr da ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.**

***Canllawiau***

- Rhaid i bren fod o ansawdd da, wedi'i gadw'n dda ac unrhyw ardaloedd a ddifrodwyd wedi eu selio neu eu gorchuddio. Rhaid i bren fod yn llyfn, wedi'i drin a'i gynnal yn briodol.

- Lle bo'n briodol, rhaid i arwynebau mewnol, gan gynnwys lloriau, fod yn llyfn, yn anhydraidd ac yn bosibl eu diheintio. Rhaid i'r lloriau fod ag arwyneb gwrthlithro, solet. Rhaid caenu neu selio uniadau rhwng adrannau.

- Rhaid peidio â chael unrhyw ymylon miniog, ymestyniadau, ymylon garw na pheryglon eraill sy'n peri risg o anaf i anifail. Ni ddylai unrhyw geblau trydanol heb eu diogelu fod o fewn cyrraedd unrhyw anifail.

- Rhaid i'r deunyddiau fod yn ddiwenwyn ac yn gallu cael eu diheintio ar ôl eu defnyddio lle bo'n briodol.

- Rhaid i ffenestri allu atal ymdrechion i ddianc. Rhaid i ddrysau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll ergydion, crafu a chnoi, ac yn bosibl i'w diogelu'n effeithiol. Rhaid osgoi unrhyw agorfeydd mawr.

- Rhaid i agoriadau drysau gael eu hadeiladu fel nad yw llif dŵr/gwastraff yn cael ei rwystro, neu'n cael ei ganiatáu i gasglu oherwydd diffyg hygyrchedd.

- Rhaid cadw rhwyll wifrog/ffensys mewn cyflwr da er mwyn creu strwythur sy'n gwrthsefyll dianc a thyllu pridd. Pan ddefnyddir bariau metel a/neu rwyll a/neu fframiau, mae'n rhaid iddynt fod o fesur addas gyda bylchiad sy'n atal anifeiliaid rhag dianc neu gael eu dal yn gaeth.

- Mae'n rhaid cymryd gofal pan fo adardai neu gewyll wedi'u hadeiladu o rwyll galfanedig newydd er mwyn atal gwenwyn metel trwm, yn enwedig yn achos parotiaid, sydd yn aml yn cnoi'r metel.

- Rhaid i'r draenio fod yn effeithiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw hylifau yn sefyll neu'n cronni. Rhaid i ddŵr gwastraff beidio â rhedeg i mewn i lociau/unedau cyfagos. Rhaid darparu sianelau draenio a'u harchwilio'n rheolaidd.

- Lle bo'n briodol, rhaid i lociau anifeiliaid a chaetsys agor i goridorau diogel neu fannau diogel eraill fel na all anifeiliaid ddianc o'r safle, a lle bo'n briodol gellir cyflawni dulliau diogelu personol o ran rheoli clefydau, megis glanhau a diheintio esgidiau, a gwisgo PPE os oes angen. Ni ddylid defnyddio'r coridorau/ardaloedd hyn fel mannau ymarfer corff.

- Rhaid archwilio llety'n rheolaidd am ddifrod, anafiadau dichonol neu fannau lle gellid dianc. Rhaid trwsio neu adnewyddu llety sydd wedi'i ddifrodi ar unwaith.

***Amodau***

**5(2) Rhaid cadw anifeiliaid mewn amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth a'u cyflwr bob amser (gan gynnwys statws iechyd ac oedran) o safbwynt –**
**(a) eu hanghenion ymddygiadol,**
**(b) eu sefyllfa, lle, ansawdd yr aer, glendid a thymheredd,**
**(c) ansawdd y dŵr (lle bo hynny'n berthnasol),**
**(d) lefelau sŵn,**
**(e) lefelau golau,**
**(f) awyru,**
**(g) bygythiadau clefydau sy'n dod i'r amlwg a rheolaethau angenrheidiol,**
**(h) atal mynediad gan fywyd gwyllt, lle bo hynny'n bosibl.**

**5(3) Rhaid cadw anifeiliaid mewn cyflwr sy'n addas i'w rhywogaeth.**

***Canllawiau***

- Mae anghenion anifeiliaid yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y rhywogaeth; oed; statws iechyd; a chefndir (anifail wedi'i fagu mewn caethiwed neu anifail wedi'i ddal yn wyllt, er enghraifft). Rhaid i gyflwr amgylchedd anifail fod yn addas i'w amgylchiadau unigol. Dylid ceisio cyngor arbenigol ynghylch beth sy'n briodol a beth sy'n anaddas lle bo angen.

- Os ydynt ar gael, rhaid cadw at Godau Ymarfer a gyhoeddir gan y Llywodraeth. Gallai ffynonellau gwybodaeth eraill gynnwys canllawiau neu argymhellion arfer gorau diwydiant neu sefydliadau anllywodraethol cymwys.

- Rhaid darparu llety addas a mannau gorffwys i anifeiliaid a fydd yn amrywio yn ôl y rhywogaeth neu grŵp rhywogaeth. Rhaid i bob llety fod:
    - yn ddiogel (rhag anifeiliaid ysglyfaethus ac anifeiliaid gwyllt eraill, yn gwrthsefyll ymdrechion i ddianc ac yn bosibl i'w gloi)
    - yn lân ac yn rhydd o baraseitiaid (a fermin);
    - yn rhydd o beryglon (e.e. ymestyniadau ac ymylon miniog);
    - wedi'i awyru (neu'n ocsigenedig ar gyfer rhywogaethau dyfrol). Rhaid darparu awyriad i bob ardal fewnol, fel sy'n briodol i'r rhywogaeth, ac ni ddylai gael unrhyw effaith niweidiol ar y tymheredd na'r lleithder;
    - wedi'i gysgodi rhag tywydd eithafol;
    - ar dymheredd sy'n addas i rywogaeth yr anifail.

- Rhaid osgoi heulwen uniongyrchol lle nad oes cysgod ar gael, ynghyd â ffynonellau gwres anfwriadol eraill. Rhaid darparu golau mewn cylch goleuni/tywyllwch addas ar gyfer y rhywogaeth a lle mae'r golau naturiol yn annigonol, rhaid defnyddio golau artiffisial addas. Os yw tonffurfiau penodol o olau (e.e. UVB) yn rhan annatod o gynhaliaeth bywyd i'r rhywogaeth, neu lle bo goleuo amhriodol yn niweidiol i iechyd yr anifail, rhaid bod system ar waith i

ddangos i’r arolygydd fod goleuni priodol yn cael ei ddarparu. Rhaid i anifeiliaid allu symud oddi wrth oleuadau uniongyrchol.

- Pan fydd systemau llety haenog yn cael eu defnyddio, rhaid peidio â gadael i ddŵr, bwyd neu gynhyrchion gwastraff halogi lefelau is. Mewn rhai systemau fel acwaria neu adardai rhywogaethau cymysg, lle mae unigedd yn amhriodol, rhaid rheoli gwastraff yn ddigonol i atal llygru bwyd a dŵr.

- Lle mae ansawdd dŵr yn rhan annatod o gynhaliaeth bywyd i’r rhywogaeth, neu lle mae ansawdd dŵr gwael yn niweidiol i iechyd yr anifail, rhaid gwirio ansawdd y dŵr bob wythnos a chadw cofnodion o’r holl brofion.

- Rhaid lleihau aflonyddwch sŵn i’r eithaf a chymryd camau lliniaru dangosadwy pan fydd problemau’n codi.

- Os yw’n briodol, ni ddylai anifeiliaid fod yn agored i ddrafftiau.

- Rhaid i bob llety gael:
    - man gorffwys cyfforddus y gall pob anifail a letyir gyda’i gilydd ei ddefnyddio ar yr un pryd;
    - swm addas o ddeunydd sarn glân o fath sy’n addas ar gyfer y rhywogaeth a’r anifeiliaid unigol.

- Rhaid i bob llety ganiatáu i anifail:
    - orwedd yn llawn;
    - sefyll yn ei ystum naturiol;
    - symud o gwmpas yn rhydd, dringo, nofio a neidio lle bo hynny’n briodol, a bod yn gyfforddus yn ei amgylchedd;
    - gorffwys yn gysurus;
    - cuddio o olwg dynol neu anifeiliaid eraill yn y lloc, lle bo’n briodol;
    - cael ei gadw mewn grwpiau cymdeithasol priodol;
    - lle bo’n briodol, cael mannau ar wahân ar gyfer cysgu, ysgarthu, ymarfer ac i encilio o’r grŵp cymdeithasol;
    - cuddio rhag ysgogiadau a allai beri dychryn iddo.

- Cyn belled ag y bo modd, mae’n rhaid i ddyluniad a chynllun unrhyw lety ganiatáu i anifeiliaid allu rheoli eu mynediad gweledol i amgylchoedd ac anifeiliaid mewn llociau eraill. Dylai hefyd leihau aflonyddwch i anifeiliaid eraill wrth gael gwared ar unrhyw anifail unigol.

- Rhaid i faint lloc fod yn briodol i’r rhywogaeth a’i addasu yn ôl ei faint wrth i’r anifail dyfu. Pan fo anifeiliaid yn cael eu cadw ar y cyd, efallai y bydd angen gwahanu neu drefnu llociau mwy os yw dynameg grŵp yn newid.

- Dylid cadw'r pellter rhwng y cyfleusterau gorffwys a'r amgylchedd gwaith cyn lleied ag y bo modd. Ar gyfer AE symudol, dylid darparu cyfleusterau gorffwys dros dro.

- Rhaid i anifeiliaid sy'n cael eu cadw neu eu harddangos yn yr awyr agored gael eu hamddiffyn yn briodol rhag tywydd gwael.

- Rhaid i bysgod allu symud yn rhwydd a throi o gwmpas mewn acwariwm neu byllau dŵr.

- Rhaid i adar allu ymestyn eu hadenydd yn rhydd.

- Wrth gael eu harddangos dros dro, gellir defnyddio llociau sy'n llai na'r hyn a ystyrir yn arfer gorau ar gyfer hwsmonaeth hirdymor.

- Mewn achosion lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn lleoliad dros dro am fwy na diwrnod, rhaid darparu llety a/neu fannau gorffwys ar y safle fel y nodir o dan 5.2 sy'n caniatáu amrywiaeth o symudiadau ac ymddygiadau naturiol. Dylai fod digon o ystafelloedd ar wahân neu fannau wedi'u gwahanu'n ddiogel er mwyn osgoi cymysgu anifeiliaid sy'n anghyfarwydd â'i gilydd. Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio llety arferol yr anifail. Os oes modd, dylid symud pysgod yn yr un dŵr ag y maent wedi cael eu cartrefu'n barhaol.

***Amodau***

**5(4) Lle bo'n briodol ar gyfer y rhywogaeth, rhaid darparu man ysgarthu a chyfleoedd i ysgarthu.**

**5(5) Rhaid i bob llety, unrhyw offer ynddo, offer teithio, a'r gofod arddangos gael eu glanhau mor aml ag y bo angen a rhaid sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod safonau hylendid da yn cael eu cynnal.**

**5(6) Rhaid cynnal safonau bioddiogelwch priodol.**

***Canllawiau***

- Er mwyn cynnal amgylchedd glân sy'n rhydd o'r clefyd, rhaid darparu gweithdrefn lanhau a rhaid rhoi manylion y drefn lanhau arferol a'r weithdrefn ar gyfer glanhau rhwng cyfnodau meddiannaeth yn ogystal â'r gweithdrefnau rheoli mewn perthynas ag unrhyw risg o glefydau anifail neu glefydau dynol.

- Mae'n rhaid i unrhyw gynhyrchion glanhau a ddefnyddir fod yn ddiwenwyn i greaduriaid mewn lloc penodol, a sicrhau fod cyfnod priodol o amser yn pasio rhwng diheintio ac (ail) gyflwyno da byw.

- Mae'n rhaid glanhau a diheintio llociau gwag yn drylwyr, a gadael iddynt sychu, cyn i'r stoc newydd gyrraedd. Rhaid i is-haen gael ei amnewid fel y bo'n briodol, a rhaid i ddarnau gosod a gosodiadau gael eu glanweithio'n ddigonol.

- Rhaid glanhau pob uned feddianedig mor aml ag y bo angen, a chlirio ar ddeunyddiau gwastraff a'u gwaredu yn ôl yr angen. Bydd yr hyn sy'n briodol yn amrywio yn dibynnu ar y rhywogaeth.

- Rhaid cael gwared ar sarn budr a'i waredu'n amserol a'i amnewid ar unwaith.

- Dylid lleihau glanhau mewn llety sy'n cynnwys rhywogaethau sydd mewn iechyd gwael neu yn ystod tymhorau magu lle byddai aflonyddu yn niweidiol i'r anifeiliaid. Mae hyn yn amodol ar gynnal amodau byw hylan priodol.

- Rhaid peidio â thrin systemau pysgod sy'n gweithio gyda sterileiddio cemegol rheolaidd. Rhaid i bysgod beidio â bod yn destun amrywiad cyflym yng nghyfansoddiad cemegol eu dŵr, heblaw am drin clefydau dan reolaeth neu fel rhan o raglen fridio a reolir. Gall amodau derbyniol amrywio'n sylweddol yn ôl rhywogaeth ac yn aml yn wrthreddfol. Os oes amheuaeth, dylid gofyn am gyngor arbenigol.

***Amod***

**5(7) Rhaid i'r holl anifeiliaid fod yn hygyrch at ddibenion hwsmonaeth anifeiliaid ac ar gyfer eu harchwilio, a rhaid cael digon o olau i weithio'n effeithiol ac i arsylwi'r anifeiliaid.**

***Canllawiau***

- Rhaid i'r llociau alluogi archwiliad gweledol gan darfu cyn lleied â phosibl ar yr anifail.

- Rhaid diffodd goleuadau i ddarparu cyfnod o dywyllwch dros nos oni bai fod gofynion y rhywogaeth yn nodi fel arall. Rhaid ystyried gofynion penodol rhywogaethau nosol.

***Amod***

**5(8) Rhaid i'r holl adnoddau gael eu darparu mewn ffordd (er enghraifft o ran amlder, lleoliad a phwyntiau mynediad) sy'n lleihau ymddygiad cystadleuol neu oruchafiaeth anifeiliaid unigol.**

***Canllawiau***

- Rhaid bod digon o adnoddau ar gyfer pob anifail unigol mewn unrhyw loc a rennir er mwyn lleihau'r oruchafiaeth, a lle nodir hynny, mae'n rhaid darparu adnoddau ychwanegol.

- Mae adnoddau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: bwyd, dŵr, eitemau cyfoethogi a mannau gorffwys/cysgu.

- Rhaid i'r deiliad trwydded allu dangos bod digon o adnoddau ar gyfer pob anifail unigol mewn loc a rennir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llety, a bod pob anifail o

fewn lloc a rennir yn gallu ymgymryd â gweithgareddau tebyg ar yr un pryd, fel gadael i bob aderyn glwydo neu fwydo ar yr un pryd, a chaniatáu i anifeiliaid wahanu oddi wrth grŵp cymdeithasol.

- Rhaid monitro anifeiliaid sy’n cael eu cadw gyda’i gilydd yn ofalus, yn enwedig adeg bwydo.

- Rhaid i bersonau sy’n ymwneud â’r gweithgaredd trwyddedadwy gael eu hyfforddi i adnabod arwyddion o darfu grŵp (e.e. cystadleuaeth ac ymddygiad ymosodol), a allai beryglu lles anifeiliaid.

***Amod***

**5(9) Rhaid peidio â gadael yr anifeiliaid ar eu pennau eu hunain mewn unrhyw sefyllfa neu am unrhyw gyfnod sy’n debygol o achosi trallod iddynt.**

***Canllawiau***

- Rhaid ymdrin â phob anifail fel y bo’n briodol, yn dibynnu ar anghenion yr anifeiliaid unigol. Rhaid ymweld â’r anifeiliaid yn rheolaidd bod 4 i 6 awr yn ystod y dydd neu yn ôl yr angen ar gyfer iechyd, diogelwch a lles unigol pob anifail yn ôl ei rywogaeth.

- Rhaid cynnal system wedi’i dogfennu o gofnodi arsylwadau am salwch, anaf neu broblemau ymddygiad.

- Rhaid i bob achos o ymdrin/rhyngweithio rhwng y cyhoedd ac anifeiliaid gael ei oruchwylio’n gyson.

- Rhaid lleihau’r angen i adael anifeiliaid mewn cerbydau a rhaid peidio byth â gadael anifeiliaid ar eu pennau eu hunain mewn car neu gerbyd arall pan fydd y tymheredd yn peri risg i’r anifail.

## 6. Deiet addas

***Amod***
**6(1) Rhaid rhoi deiet addas i'r anifeiliaid o ran ansawdd, maint ac amlder a rhaid cyflwyno unrhyw borthiant newydd yn raddol er mwyn caniatáu i'r anifeiliaid addasu iddynt.**

***Canllawiau***

- Rhaid i anifeiliaid gael deiet digonol a chytbwys yn unol â'u hanghenion maethol penodol. Rhaid i anifeiliaid gael deiet cyflawn sy'n briodol i'w hoed, eu brîd, eu rhywogaeth, eu lefel gweithgarwch a'u safle yn y cylch bridio. Mae'n rhaid i bobl sy'n gofalu am yr anifeiliaid a/neu sy'n arddangos eu hanifeiliaid feddu ar wybodaeth am y gofynion ar gyfer yr holl rywogaethau a ddelir.

- Os oes pryderon am ddeiet anifail unigol, rhaid gofyn am gyngor maethol/milfeddygol priodol.

- Rhaid darparu ychwanegion bwyd, gan gynnwys fitaminau a mwynau, os oes eu hangen, ar y dogn cywir ar gyfer y rhywogaeth unigol ac ar ffurf sy'n briodol i sicrhau y darperir ychwanegiadau digonol i'r rhywogaeth darged.

- Rhaid cadw bwydydd ffres yn yr oergell lle bo'n briodol. Rhaid storio bwydydd wedi'u rhewi y bwriedir eu defnyddio ar dymheredd priodol.

- Rhaid cadw bwyd byw y bwriedir ei ddefnyddio mewn cynwysyddion addas i atal dianc. Rhaid cael gwared ar fwyd byw, os nad yw'n cael ei fwyta mewn cyfnod byr, lle y gallai fod yn beryglus i'r rhywogaethau sydd dan do e.e. criciaid yn brathu ymlusgiaid.

- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid bwydo ysglyfaeth byw i anifeiliaid asgwrn cefn (e.e. neidr nad yw'n bwydo). Rhaid i hyn fod ar sail anifail unigol, a hynny ar gyfer anifeiliaid penodedig yn unig. Rhaid i ddeiliad trwydded fod wedi cwblhau cyfiawnhad ysgrifenedig ar y cyd â milfeddyg, sy'n pwyso a mesur lles ysglyfaethwr ac ysglyfaeth, a rhaid sicrhau bod cyfiawnhad ysgrifenedig ar gael i'r arolygwyr. Mae'n rhaid i berson cymwys arsylwi ar borthiant byw a dylid cael gwared ag ysglyfaeth heb ei fwyta mewn modd amserol. Ni chaniateir bwydo o'r fath ym mhresenoldeb y cyhoedd.

- Pan fo deiliad trwydded yn bridio neu'n prynu anifeiliaid asgwrn cefn byw sy'n cael eu lladd at ddibenion bwydo stoc arall a gedwir ar y safle, rhaid i filfeddyg asesu'r dull o ewthanasia a bod yn fodlon cyn cymeradwyo bod y dull yn drugarog ac yn effeithiol, a'i fod yn parhau felly. Rhaid i'r dull ewthanasia fod yn ddiogel ac yn drugarog ar gyfer yr anifail sydd wedi'i ddifa a'r anifail sy'n cael ei fwydo.

***Amod***
**6(2) Rhaid monitro bwyd anifeiliaid a (lle bo'n briodol) faint o ddŵr sy'n cael ei yfed, a chofnodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â hwy.**

***Canllawiau***
- Mae'n rhaid cofnodi annormaleddau mewn arferion bwyta a/neu yfed a gweithredu arnynt. Rhaid ceisio cyngor milfeddygol priodol os oes angen.

- Mae'n rhaid i berson cymwys asesu unrhyw golledion neu enillion sylweddol o ran pwysau. Os na ellir adnabod y rheswm sylfaenol a/neu os nad yw'r mesurau adfer wedi bod yn llwyddiannus, rhaid i filfeddyg asesu'r anifail. Os yw'n cael ei letya fel rhan o grŵp cymdeithasol, mae'n rhaid ei bod yn bosibl ynysu'r anifail i ganfod a yw'n bwyta ai peidio.

- Ar gyfer mamaliaid bach, moch cwta, cwningod ac adar, os nad oes gwelliant yn y bwyd a fwyteir o fewn 12 awr yn dilyn camau unioni gan berson cymwys, neu os yw cyflwr yr anifail unigol yn dirywio, rhaid ymgynghori â milfeddyg.

***Amodau***
**6(3) Rhaid i fwyd a dŵr yfed a ddarperir i'r anifeiliaid fod yn lân a heb eu halogi.**

**6(4) Rhaid i gynwysyddion bwyd a diod naill ai fod yn gyfarpar untro, neu'n bosibl i'w glanhau a'u diheintio.**

***Canllawiau***
- Rhaid cynnal a chadw cynwysyddion i safon uchel o lendid a hylendid. Rhaid eu gwaredu os cânt eu difrodi.

***Amodau***
**6(5) Wrth gael eu cludo, rhaid cynnig dŵr yfed ffres, glân i anifeiliaid ar adegau priodol, a rhoi digon o gyfle iddynt yfed hefyd.**

**6(6) Ar bob adeg arall, rhaid darparu mynediad cyson at ddŵr yfed ffres, glân mewn cynhwysydd addas ar gyfer y rhywogaeth sydd ei angen.**

***Canllawiau***
- Mae'n rhaid i ddŵr lifo'n rhwydd o boteli dŵr, ac mae'n rhaid iddynt beidio gollwng a bod yn rhydd o rwystrau.

- Rhaid cadw dŵr draw o fannau cysgu i leihau'r perygl o wlychu deunydd gorwedd neu is-haen.

- Dylid darparu dŵr glân ffres mewn baddon ar gyfer adar ysglyfaethus yn ddyddiol, ond pan gedwir anifail yn yr awyr agored, dylid peidio darparu dŵr yn ystod tywydd rhewllyd er mwyn osgoi problemau iechyd.

***Amod***
**6(7) Rhaid bod cyfleusterau hylan ar gyfer paratoi a storio porthiant.**

***Canllawiau***

- Lle bo modd, dylai sebon a chyfleusterau sychu dwylo hylan fod ar gael. Nid yw gel alcoholig yn cael ei ystyried yn ddewis addas yn lle dŵr a sebon. Rhaid gwarchod bwyd rhag lleithder, dirywiad, llwydni neu halogiad gan bryfed, adar, fermin neu blâu eraill.

- Rhaid cadw'r man paratoi bwyd yn lân ac yn rhydd o fermin.

- Ni ddylid paratoi bwyd ar gyfer pobl ac anifeiliaid mewn mannau paratoi ar y cyd, ar yr un pryd, na thrwy ddefnyddio offer a rennir.

- Ni ddylid defnyddio cynwysyddion ar gyfer bwyd a diod at unrhyw ddibenion eraill.

## 7. Monitro ymddygiad a hyfforddi anifeiliaid

***Amod***
**7(1) Rhaid darparu gweithgareddau cyfoethogi amgylcheddol penodol ac effeithiol ar gyfer rhywogaethau mewn unrhyw amgylchedd parhaol neu dros dro lle caiff yr anifeiliaid eu cadw, eu hyfforddi neu eu harddangos (y tu mewn a’r tu allan).**

***Canllawiau***
- Rhaid i anifeiliaid allu ymddwyn yn naturiol yn eu hamgylchedd byw. Efallai y bydd hyn yn golygu bod angen cyfoethogi'r amgylchedd megis gwrthrychau ac is-haenau (e.e. gwely gwellt) neu ddylunio cwt er mwyn darparu rhai gofynion corfforol (e.e. clwydi) neu amgylcheddol (e.e. lefel lleithder). Ni ddylai’r rhain achosi anafiadau a dylid eu hadnewyddu os cânt eu difrodi.

- Fel sy'n briodol i’r rhywogaeth, rhaid newid dyfeisiadau cyfoethogi yn rheolaidd i gyflwyno newydd-deb a chynnal diddordeb. Wrth ychwanegu dyfeisiau cyfoethogi newydd, dylid cadw llygad barcud ar yr anifail am unrhyw arwyddion o drallod.

- Rhaid i ategolion fod yn dafladwy neu gael eu diheintio rhwng anifeiliaid.

***Amod***
**7(2) O ran rhywogaethau y mae eu lles yn dibynnu'n rhannol ar ymarfer corff, rhaid darparu cyfleoedd ymarfer corff sydd o fudd i iechyd corfforol a meddyliol yr anifeiliaid, oni bai bod milfeddyg yn cynghori fel arall.**

***Canllawiau***
- Rhaid i bob anifail gael ymarfer bob dydd, fel sy'n briodol ar gyfer rhywogaethau, oed, gallu, cyfnod hyfforddiant a gallu corfforol.

- Yn achos adar, cynghorir bod y dimensiynau'r adardy yn darparu digon o le ar gyfer hedfan ac o leiaf yn ddigon llydan i'r aderyn agor ei adenydd yn llawn. Rhaid peidio â chlymu adar yn barhaol.

- Os nad yw anifeiliaid yn gallu symud yn llawn (h.y. defnyddio eu hystod lawn naturiol o symudiadau, fel rhedeg a hedfan) mewn unrhyw le caeedig dros dro (e.e. wrth gael eu harddangos), rhaid rhoi cyfle iddyn nhw wneud hynny o leiaf unwaith y dydd a chadw cofnod.

*Amod*
**7(3) Rhaid monitro ymddygiad anifeiliaid ac unrhyw newidiadau mewn ymddygiad a chael cyngor, fel y bo'n briodol ac yn ddi-oed, gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, unrhyw unigolyn sy'n gymwys i roi'r cyfryw gyngor os ydych chi'n canfod ymddygiad anffafriol neu annormal.**

*Canllawiau*
- Rhaid monitro ymddygiad anifeiliaid unigol yn ddyddiol a chofnodi newidiadau mewn ymddygiad a/neu ymddygiad sy'n dangos arwyddion o straen, ofn, poen a phryder, a gweithredu arnynt.

- Rhaid i unigolion sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid allu sylwi ar rai sy'n bryderus neu'n ofnus ynghylch dod i gysylltiad ag eraill a/neu gael eu cyffwrdd. Dim ond anifeiliaid sy'n addas ar gyfer y math o arddangosfa dan sylw y dylid eu harddangos (gan gynnwys cael eu trin, sŵn, golau, effeithiau arbennig, anifeiliaid eraill), h.y. bod modd diwallu eu hanghenion ac nad ydynt yn debygol o fod yn nerfus, dan straen nac ofnus.

- Os yw anifail yn dangos arwyddion o fod yn nerfus, dan straen neu'n ofnus, rhaid cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys tynnu'n ôl o'r arddangosfa.

*Amodau*
**7(4) Rhaid i'r anifeiliaid gael eu hyfforddi gan unigolion cymwys, gan ddefnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol.**

**7(5) Pan ddefnyddir dulliau hyfforddi neu gyfarpar, ni ddylent achosi poen, dioddefaint neu anaf.**

*Canllawiau*
- Rhaid i'r hyfforddiant fod yn seiliedig ar egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol (h.y. gwobrwyo ymddygiad dymunol ac anwybyddu ymddygiad annymunol). Rhaid peidio gorfodi anifeiliaid yn gorfforol i berfformio neu eu cosbi os nad ydynt yn perfformio.

- Os bydd anifail yn cael ei hyfforddi yn ystod yr arddangosfa, rhaid gwneud hynny mewn ffordd sy'n lleihau straen i'r anifail.

- Dylid ystyried yr angen i filfeddyg fod yn bresennol ar set neu leoliad er mwyn sicrhau lles lle bo hynny'n ymarferol, lle nodwyd perygl penodol yn yr asesiad risg, neu os yw hynny'n ofynnol gan safonau'r diwydiant.

- Rhaid archwilio holl brops, gwisgoedd ac offer cyn ac ar ôl pob defnydd, ac archwilio anifeiliaid am unrhyw arwyddion o anghysur, rhwbio neu ddifrodi.

- Ni ddylai props, gwisgoedd anifeiliaid, unrhyw fath o offer ac unrhyw effeithiau arbennig achosi risg i'r anifail na pheri unrhyw boen diangen, dioddefaint, trallod nac anghysur, a rhaid eu defnyddio am y cyfnod byrraf posibl. Gall carbon deuocsid (sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu rhew sych) a mwg artiffisial fod yn

niweidiol i lawer o rywogaethau, a dylid ei osgoi. Ni ddylid byth ei ddefnyddio o amgylch adar, ymlusgiaid nac amffibiaid.

- Ni ddylai anifeiliaid fod yn agored i olau llachar, gwres, synau na chyflyrau eraill oni bai eu bod wedi arfer â'r amodau hyn cyn yr arddangosfa. Yn achos anifeiliaid sydd wedi'u hyfforddi fel hyn, rhaid lleihau'r sefyllfaoedd hyn i'r amser byrraf posibl, a lle bo modd, defnyddio dulliau eraill megis onglau camera a thechnegau i gyflawni'r un effaith. Rhaid gofyn am gyngor milfeddyg a chofnodi hynny.

- Rhaid peidio â gorfodi anifail i wneud unrhyw beth, ac ni ddylid disgwyl iddo wneud unrhyw beth, y tu allan i'w berfformiad arferol neu unrhyw berfformiad nad yw wedi'i hyfforddi i'w wneud.

- Rhaid i nifer y rhai sy'n hyfforddi a thrin anifeiliaid gyd-fynd â nifer a rhywogaethau'r anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio.

- Rhaid penderfynu ar bob effaith fel tanau, ffrwydron ac ati ar y cyd â'r milfeddyg, ymgynghorydd a hyfforddwr anifeiliaid cyn eu defnyddio. Ni ddylid defnyddio offer ffrwyno ar anifeiliaid nad ydynt wedi'u hyfforddi i'w gwisgo, neu os yw anifail yn gwrthsefyll neu'n brwydro'n erbyn hynny.

***Amod***

**7 (6) Rhaid rhoi cyfleoedd addas a digonol i bob anifail wneud y canlynol —**
**(a) dysgu sut i ryngweithio â phobl, eu rhywogaeth eu hunain ac anifeiliaid eraill lle mae rhyngweithiad o'r fath o fudd i'w lles,**
**(b) dod i arfer â llefydd caeedig, synau, gwrthrychau a gweithgareddau y maent yn debygol o ddod ar eu traws mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy.**

***Canllawiau***

- Rhaid bod cynllun ar waith er mwyn i anifeiliaid ddod i arfer ag unrhyw ysgogiad neu gyfuniad o ysgogiadau y maent yn debygol o'u profi ar y cyfle cyntaf posibl. Mae hyn yn cynnwys trin a thrafod unigol, cynulleidfaoedd a thyrfaoedd, synau uchel a gweithgareddau sy'n digwydd o'u cwmpas.

## 8. Trin anifeiliaid a rhyngweithio ag eraill

***Amod***
**8 (1) Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn gymwys i drin pob anifail yn briodol i'w ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf neu glefyd.**

***Canllawiau***
- Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn trin anifail, rhaid i berson cymwys sicrhau eu bod yn rhyngweithio'n briodol ac atal hynny os bydd yr anifail yn dangos arwydd o ofn, dioddefaint neu flinder. Rhaid goruchwylio'r modd mae eraill yn trin anifeiliaid bob amser a chynnig cyfleusterau golchi dwylo cyn ac ar ôl hynny. Dim ond unigolion cymwys ddylai ymdrin ag anifeiliaid sy'n dangos arwyddion o ymddygiad ymosodol.

***Amod***
**8 (2) Rhaid i'r anifeiliaid gael eu cadw ar wahân neu mewn grwpiau cymdeithasol cydnaws sy'n briodol i'r rhywogaethau a'r anifeiliaid unigol ac ni chaiff unrhyw anifeiliaid o rywogaeth gymdeithasol gael ei ynysu neu ei wahanu oddi wrth eraill o'u rhywogaeth am fwy nag sydd raid.**

***Canllawiau***
- Lle bo modd, rhaid cadw pob anifail mewn grwpiau cymdeithasol o faint addas.

- Ni ddylid cadw rhywogaethau sydd fel arfer yn unigol, gyda grwpiau cymdeithasol. Yn ddelfrydol, ni ddylid eu cadw o fewn golwg ei gilydd – ond os nad yw hyn yn bosib, rhaid cadw digon o bellter a rhwystr gweledol er mwyn atal straen.

- Rhaid i anifeiliaid sy'n gweithio gyda'i gilydd ddod i arfer â'i gilydd cyn mynychu digwyddiadau. Rhaid osgoi defnyddio rhywogaethau ysglyfaethus a rhywogaethau ysglyfaeth yr un pryd.

- Rhaid pennu polisi ar gyfer monitro'r broses o gyflwyno anifeiliaid newydd i grwpiau sy'n bodoli eisoes, er mwyn osgoi straen i naill ai anifeiliaid newydd neu'r rhai sydd yno'n barod ac amlinellu'r camau i'w cymryd pe bai problem yn codi.

- Lle bo hynny'n briodol, er mwyn helpu i osgoi torllwythi diangen, rhaid gwirio rhyw pob anifail yn syth ar ôl cyrraedd y safle a'i ysbaddu neu, os yw'n briodol, ei roi mewn grŵp un rhyw neu ei gadw ar ei ben ei hun fel sy'n addas i'r rhywogaeth.

***Amodau***

**8 (3) Rhaid peidio ag arddangos anifeiliaid cymdeithasol, os bydd eu tynnu o'u grŵp arferol a'u hailgyflwyno wedyn, yn achosi straen, pryder neu ofn iddynt neu unrhyw anifail arall o'r un grŵp.**

**8 (4) Rhaid atal anifeiliaid rhag dod i gysylltiad â'i gilydd yn ystod unrhyw arddangosfa lle byddai cyswllt o'r fath yn debygol o achosi i unrhyw un ohonynt ddangos arwyddion o ymddygiad ymosodol, ofn neu ofid.**

***Canllawiau***

- Rhaid peidio â defnyddio anifeiliaid sy'n dangos arwyddion o ymddygiad ymosodol, ofn neu ofid mewn arddangosfa. Os gwelir arwyddion o ofn neu drallod yn ystod yr arddangosfa, rhaid naill ai dirwyn yr arddangosfa i ben neu symud yr anifeiliaid dan sylw i fan diogel ar unwaith.

- Rhaid peidio â defnyddio anifeiliaid i brocio eraill er mwyn cyflawni effaith.

- Ni ddylid cadw anifeiliaid ysglyfaethus nac anifeiliaid ysglyfaeth o fewn golwg, sain nac arogl ei gilydd.

***Amod***

**8 (5) Rhaid i'r anifeiliaid gael cyfleoedd dyddiol o leiaf i ryngweithio â phobl lle mae rhyngweithio o'r fath o fudd i'w lles.**

***Canllawiau***

- Rhaid peidio byth â gorfodi anifeiliaid i ryngweithio â phobl, a rhaid bod ganddynt gyfleuster i osgoi pobl, h.y. lle i guddio.

***Amodau***
**8 (6) Rhaid i bawb sy'n debygol o ddod i gysylltiad â'r anifeiliaid yn ystod arddangosfa gael eu briffio ar sut i ymddwyn o amgylch yr anifeiliaid er mwyn lleihau teimladau o bryder, ofn a straen ymhlith yr anifeiliaid hynny.**

**8 (7) Rhaid i bawb sy'n debygol o ddod i gysylltiad â'r anifeiliaid yn ystod arddangosfa gael eu briffio ar sut i ymddwyn o amgylch yr anifeiliaid er mwyn lleihau'r risg o anaf i bobl.**

**8 (8) Rhaid i'r anifeiliaid beidio â chael eu trin gan unigolion sy'n ymddwyn mewn modd sy'n awgrymu eu bod dan ddylanwad alcohol neu sylwedd seicoweithredol ar y pryd.**

***Canllawiau***
- Rhaid i bawb sy'n debygol o ddod i gysylltiad â'r anifeiliaid a arddangosir (gan gynnwys y gynulleidfa ac unrhyw un sy'n trin anifeiliaid) wybod pa fathau o anifeiliaid fydd yn cael eu defnyddio, sut i ymddwyn o'u hamgylch (gan gynnwys synau sydyn/uchel fel clapio a chymeradwyo), neu symudiadau a allai ddychryn yr anifeiliaid a/neu achosi iddynt banicio neu ymddwyn yn adweithiol.

- Mewn achosion lle mae arddangosion yn digwydd fel rhan o ddigwyddiadau ehangach (fel sioeau amaethyddol), dylai'r rhai sy'n arddangos anifeiliaid ofyn i drefnydd y digwyddiad eu rhybuddio am unrhyw weithgareddau swnllyd eraill neu unrhyw beth arall (e.e. anifeiliaid eraill) a allai achosi pryder i'r anifeiliaid, a cheisio lleihau peryglon trwy adael anifeiliaid mor bell â phosib o'r digwyddiadau hyn.

- Rhaid i bawb sy'n dod i gysylltiad ag anifeiliaid gael eu briffio ar sut i leihau'r risg o glefydau y gellir eu trosglwyddo rhwng pobl ac anifeiliaid. Rhaid bod digon o gyfleusterau golchi dwylo ar gael i bobl sy'n dod i gysylltiad ag anifeiliaid.

- Ni ddylid caniatáu i unrhyw un, heblaw' r rhai sy'n gyfrifol am yr anifeiliaid, roi maldod, trin neu chwarae gydag anifeiliaid yn ystod y diwrnod gwaith - oni bai bod hynny'n cael ei oruchwylio ac yn gwbl gysylltiedig â'r camau gofynnol ac yn cyd-fynd â buddiannau a lles yr anifail hwnnw.

***Amod***
**8(9) Rhaid i'r deiliad trwydded, lle bo’n bosibl, hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus, ac agweddau parchus a chyfrifol, mewn perthynas â'r rhywogaethau sy'n cael eu harddangos.**

***Canllawiau***

- Dylai natur yr addysg a'r ymwybyddiaeth gyhoeddus fod yn briodol ar gyfer maint a natur y gweithgaredd a gallai gynnwys, er enghraifft, cynnwys gwybodaeth am y rhywogaeth a'u gofal mewn unrhyw gyflwyniad llafar neu ar wefan neu mewn deunyddiau; lle bo'n briodol, annog pobl i beidio â phrynu rhywogaethau a arddangosir heb waith ymchwil manwl ymlaen llaw; neu, pan na all deiliad y drwydded ddarparu gwybodaeth, cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill, er enghraifft codau ymarfer[13] neu ganllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru a gynhyrchwyd gan gyrff proffesiynol.

- Pan fydd anifeiliaid yn cael eu harddangos i'r cyhoedd, rhaid defnyddio arwyddion i roi gwybodaeth am y rhywogaethau dan sylw. Dylai hefyd atal aelodau'r cyhoedd rhag tapio gwydr neu roi ei bysedd drwy’r cewyll.

***Amod***
**8(10) Ni chaniateir symud unrhyw fenyw sydd ag epil heb ei ddiddyfnu o'i amgylchedd cartref os yw hynny’n achosi gofid a thrallod i’r anifail, ac ni ddylid tynnu epil newydd-anedig, dibynnol neu heb ei ddiddyfnu oddi ar eu mamau.**

***Canllawiau***
- Nid yw hyn yn golygu na ellir mynd ag anifail at filfeddyg i gael asesiad meddygol a/neu driniaeth. Lle bo modd, dylai milfeddyg ymweld â'r anifail er mwyn lleihau unrhyw ofid i'r anifail neu i'w epil.

- Os oes hawl gan aelodau o'r cyhoedd i drin anifeiliaid ifanc, dylid ystyried y gofid y gallai camau o'r fath ei achosi i'r anifeiliaid. Lle y gwelir gofid, dylid cymryd camau priodol i atal hynny rhag digwydd eto. Gallai hyn gynnwys peidio â dangos yr anifail mwyach neu beidio caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ei drafod.

**13** https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid

## 9. Amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd

***Amodau***
**9(1) Rhaid i weithdrefnau ysgrifenedig—**
**(a) bod ar waith a'u gweithredu gan gwmpasu—**
**(i) trefniadau porthi,**
**(ii) trefniadau glanhau,**
**(iii) cludiant,**
**(iv) atal clefyd rhag lledaenu, a rheoli hynny**
**(v) monitro a sicrhau iechyd a lles yr holl anifeiliaid,**
**(vi) anifail sy'n dianc,**
**(vii) marwolaeth, ymddeoliad neu ailgartrefu anifail (gan gynnwys storio carcasau);**

**(b) bod ar waith sy'n cwmpasu gofal yr anifeiliaid ar ôl atal neu ddirymu'r drwydded neu yn ystod ac yn dilyn argyfwng.**

**9 (2) rhaid i'r gweithdrefnau ysgrifenedig gynnwys yr anifeiliaid yn eu canolfan gartref ac yn ystod y cyfnod cludo ac arddangos**

**9 (3) rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.**

***Canllawiau***
- Dylai gweithdrefnau ysgrifenedig fod yn gymesur â maint, ac adlewyrchu cymhlethdod, y gweithgaredd trwyddedadwy. Rhaid sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i'r arolygwyr a rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn hollol ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.

- Yn achos arddangosfa symudol, rhaid i'r gweithdrefnau ysgrifenedig gynnwys y trefniadau sydd ar waith pan mae'r anifail i ffwrdd o'i ganolfan gartref, yn enwedig os yw'n cynnwys bod i ffwrdd o'i gartref parhaol dros nos.

- Rhaid i'r gweithdrefnau ddangos sut y bodlonir yr amodau a amlinellir yn y canllawiau hyn.

***Amod***
**9(4) Rhaid bod cyfleusterau ynysu priodol ar gael, mewn cyfleusterau annibynnol ar wahân, i ofalu am anifeiliaid sy'n sâl, wedi'u hanafu neu wedi'u taro gan haint posibl.**

***Canllawiau***
- Rhaid darparu ar gyfer ynysu anifeiliaid sâl/wedi'u hanafu/heintus a'r rhai y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gario clefydau heintus difrifol.

- Gall cyfleusterau ynysu digonol fod ar y safle neu mewn lleoliad arall, megis practis milfeddygol lleol neu drwy newidiadau penodol mewn arferion rheoli a ddangoswyd gan weithdrefnau ysgrifenedig. Os yw'r cyfleuster ynysu mewn

lleoliad arall, rhaid darparu llythyr sy’n dweud eu bod yn barod i ddarparu cyfleusterau o'r fath.

- Ni ddylid caniatáu i anifeiliaid sy'n dangos arwyddion o glefyd heintus rannu unrhyw ardal ymarfer y tu allan, a rhaid eu tynnu o unrhyw arddangosfa lle byddant yn rhyngweithio â'r cyhoedd neu anifeiliaid eraill.

- Rhaid i unrhyw anifeiliaid yn y cyfleuster ynysu gael eu harchwilio'n rheolaidd, ac os nad oes rhywun ar wahân yn gofalu amdanynt, ymweld â nhw ar ôl yr anifeiliaid eraill.

- Gall pysgod sy'n dangos arwyddion o salwch neu glefyd gael eu cadw gydag anifeiliaid eraill ar yr amod bod yr holl bysgod yn yr un tanc (neu system gysylltiedig) yn cael triniaeth briodol.

- Pan mae clefyd heintus yn bresennol mewn safle, rhaid defnyddio gweithdrefnau nyrsio rhwystrol. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad ac esgidiau amddiffynnol (lle bo'n berthnasol) a’u newid rhwng llefydd caeedig; storio cyfarpar ar wahân, gan gynnwys offer glanhau, a gwahanu gwastraff.

***Amod***
**9(5) Rhaid gwneud popeth posibl i atal a rheoli clefydau heintus, pathogenau a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith anifeiliaid a phobl.**

***Canllawiau***
- Rhaid bod cofnod brechiadau milfeddygol diweddaraf ar gael er mwyn sicrhau, lle bo modd, bod anifeiliaid wedi derbyn y brechiadau diweddaraf. Rhaid i frechlynnau a ddefnyddir gael eu trwyddedu i'w defnyddio yn y DU. Nid yw brechu homeopathig yn dderbyniol.

- Os oes tystiolaeth o barasitiaid allanol (chwain, trogod, llau ac ati.) rhaid trin yr anifail gyda chynnyrch wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

- Rhaid i bob unigolyn sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r anifeiliaid olchi eu dwylo cyn ac ar ôl trafod anifeiliaid. Rhaid diheintio unrhyw offer a ddefnyddir.

***Amod***
**9(6) Rhaid storio a gwaredu'r holl garthion a deunyddiau gorwedd mewn modd hylan ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.**

***Canllawiau***
- Rhaid cadw'r holl garthion a deunyddiau gorwedd i'w gwaredu mewn modd hylan. Rhaid tynnu deunyddiau gorwedd budron o'r safle'n rheolaidd, o leiaf unwaith yr wythnos, a'u gwaredu er boddhad awdurdod lleol priodol, ac yn unol â'r rheoliadau cyfredol ac arferion rheoli gwastraff da.

***Amod***
**9(7) Ni ddylid arddangos anifeiliaid sy’n sâl neu wedi anafu, ac eithrio pan mai diben y gweithgaredd trwyddedadwy yw gofalu am anifeiliaid o'r fath a chyn belled nad yw’r gweithgaredd trwyddedadwy yn achosi unrhyw drallod i’r anifail.**

***Canllawiau***
- Rhaid ymgynghori â milfeddyg cyn arddangos anifeiliaid sy’n sâl neu wedi’i anafu er mwyn asesu pa mor addas yw’r arddangosfa a rhaid i ganlyniad ysgrifenedig yr ymgynghoriad hwnnw fod ar gael i'w archwilio.

- Rhaid i unrhyw arddangosfa sy'n cynnwys anifeiliaid sy'n sâl neu wedi'u hanafu (er enghraifft, diwrnodau agored mewn canolfannau adsefydlu anifeiliaid) fod yn barchus ac ystyriol o gyflwr yr anifeiliaid a'r effaith y gall eu harddangos ei chael ar eu hadferiad neu eu lles.

- Rhaid i unrhyw un sydd â mynediad at anifeiliaid sâl neu sydd wedi'u hanafu fod yn ymwybodol o flaen llaw o unrhyw drefniadau arbennig sydd angen eu dilyn er mwyn diogelu iechyd a lles yr anifeiliaid.

- Ni ddylai aelodau o'r cyhoedd allu mynd at unrhyw anifeiliaid pan fydd eu presenoldeb yn achosi trallod i'r anifail neu'n llesteirio'i wellhad neu ei les.

- Rhaid i aelodau o'r cyhoedd beidio mynd yn agos at anifeiliaid sy'n peri risg o filhaint.

- Os caniateir i aelodau o'r cyhoedd drin anifeiliaid sâl neu wedi’u hanafu, rhaid cyfyngu ar hyn a'i reoli'n ofalus gan unigolion cymwys.

- Lle mae arddangosion yn cynnwys anifeiliaid gwyllt brodorol y bwriedir eu rhyddhau yn ôl i'r gwyllt, rhaid cyfyngu ar fynediad at yr anifeiliaid hynny er mwyn osgoi gadael gormod o ôl.

***Amod***
**9(8) Rhaid i anifeiliaid sâl neu wedi’u hanafu dderbyn sylw ar unwaith gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, person cymwys priodol, a rhaid dilyn cyngor y milfeddyg neu’r person cymwys dan sylw.**

***Canllawiau***
- Os ydych chi’n amau bod anifail yn sâl neu wedi'i anafu, rhaid i berson cymwys asesu'r anifail a, lle bo angen, cysylltu â milfeddyg am gyngor ar unwaith. Rhaid cofnodi unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer triniaeth a roddir gan filfeddyg a'i ddilyn yn fanwl, a gofyn am gyngor pellach os oes pryder parhaus.

*Amodau*
**9(9) Lle bo’r angen, rhaid i anifeiliaid gael triniaeth ataliol gan berson cymwys priodol.**

**9(10) Rhaid i’r deiliad trwydded gofrestru gyda milfeddyg â lefel briodol o brofiad o ran gofynion iechyd a lles unrhyw anifeiliaid a bennir yn y drwydded, a rhaid i fanylion cyswllt y milfeddyg hwnnw fod ar gael yn rhwydd ar y safle lle cynhelir y gweithgaredd trwyddedig.**

*Canllawiau*
- Rhaid i enw, cyfeiriad a rhif ffôn y filfeddygfa fod ar gael i bawb sy'n gofalu am yr anifeiliaid. Rhaid i’r filfeddygfa fod o fewn pellter teithio rhesymol o ganolfan gartre’r anifeiliaid a rhaid i drefniadau y tu allan i oriau fod yn hysbys. Os nad yw’r milfeddyg arferol ar gael, gellir cofrestru gyda milfeddyg lleol sy'n barod i gael cyngor gan arbenigwr.

- Dylai deiliad y drwydded sicrhau bod y milfeddygfa yn ddigon cymwys i weithredu mewn perthynas â phob rhywogaeth. Os bydd diffyg gwybodaeth mewn unrhyw faes, dylai deiliad y drwydded drefnu i gael gwybodaeth arbenigol megis gan filfeddygfa eilaidd arbenigol pe bai angen cyngor a thriniaeth i rywogaethau penodol. Rhaid i'r deiliad trwydded ddarparu gwybodaeth sy’n ymwneud ag unrhyw drefniant fel hwn ar gyfer pob rhywogaeth a ddelir er mwyn dangos bod milfeddyg yn gymwys i drin yr anifeiliaid hynny.

*Amodau*
**9 (11) Rhaid i feddyginiaethau presgripsiwn gael eu storio'n saff a diogel er mwyn eu gwarchod rhag unrhyw fynediad anawdurdodedig, ar y tymheredd cywir, a’u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg.**

**9 (12) Rhaid storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau ar wahân i rai presgripsiwn, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu'r milfeddyg.**

**9 (13) Rhaid i gynhyrchion glanhau fod yn addas, yn ddiogel ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy'n peri risg i'r anifeiliaid a rhaid eu defnyddio, eu storio a’u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'u defnyddio mewn modd sy'n atal trallod neu ddioddefaint i’r anifeiliaid.**

*Canllawiau*
- Rhaid defnyddio cynhyrchion glanhau a diheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Bydd y cynhyrchion glanhau a diheintio a ddefnyddir yn ddiwenwyn ac yn gydnaws â chynhyrchion eraill a ddefnyddir.

- Rhaid i bobl sy'n defnyddio cynhyrchion glanhau fod yn gymwys i ddefnyddio glanedyddion a hylifau'n ddiogel. Rhaid i gynhyrchion glanhau gael eu cadw'n gyfan gwbl allan o gyrraedd anifeiliaid, ac ni ddylid byth eu gadael mewn llociau anifeiliaid.

- Os byddwch yn defnyddio sylweddau peryglus neu wenwynig, mae angen cwblhau a dosbarthu taflenni data Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn ôl y gofyn.

***Amodau***
**9(14) Rhaid i bob anifail gael ei archwilio o leiaf unwaith y dydd ac yn fwy rheolaidd yn ôl yr angen i chwilio am unrhyw arwyddion o boen, dioddefaint, anaf, afiechyd neu ymddygiad annormal, a rhaid gwirio anifeiliaid sy'n agored i niwed yn fwy aml.**

**9(15) Rhaid cofnodi unrhyw arwyddion o boen, dioddefaint, anaf, clefyd neu ymddygiad annormal, a rhaid gofyn am gyngor a chyngor pellach (os oes angen) milfeddyg (neu, yn achos pysgod, person cymwys priodol).**

***Canllawiau***
- Rhaid i archwiliadau beidio ag achosi straen neu aflonyddwch diangen. Mae archwiliadau gweledol yn dderbyniol.

- Rhaid cynnal system cofnodi annormaleddau.

***Amodau***
**9(16) Rhaid i anifeiliaid a ddefnyddir mewn arddangosfa fod mewn cyflwr iechyd corfforol a meddyliol da, ac eithrio pan mai diben y gweithgaredd trwyddedadwy yw gofalu am anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu.**

**9(17) Rhaid i'r anifeiliaid a arddangosir fod yn addas ar gyfer yr amodau penodol, y math o le caeedig a'r camau sy'n rhan o'r arddangosfa.**

***Canllawiau***
- Ni ddylid symud pysgod o ddŵr yn ystod arddangosfeydd.

- Rhaid peidio gwrthod mynediad rhywogaethau at ddŵr ar gyfer ymdrochi neu nofio am fwy o amser nag sy'n arferol i'r rhywogaeth.

- Lle bo'n briodol, rhaid i bob anifail a gedwir elwa ar drefn lanhau reolaidd a chyfundrefnau iechyd eraill fel bo'r angen e.e. glanhau llygaid neu gadw ffwr hir rhag mynd yn un geden. Byddai hyn yn cynnwys sylw rheolaidd i gôt, dannedd, clustiau ac ewinedd ac archwilio am barasitiaid.

- Rhaid caniatáu i bob anifail a ddefnyddir mewn arddangosion symudol gynefino ar ôl cyrraedd a chyn yr arddangosfa.

- Yn ystod seibiant arddangos, rhaid symud anifeiliaid i le addas, diogel, neu eu hymarfer os yw'n addas, ac eithrio pan fyddai hynny'n amharu fwy ar les o gymharu â'i adael yn yr ardal arddangos.

***Amod***
**9(18) Ni ddylai unrhyw offer a deunyddiau eraill a ddefnyddir yn yr arddangosfa achosi poen, anghysur, blinder neu straen i'r anifeiliaid.**

***Canllawiau***
- Ni ddylid defnyddio sylweddau gwenwynig yr un pryd â'r anifeiliaid mewn unrhyw gynhyrchiad. Os bydd sylweddau peryglus neu wenwynig yn cael eu cynnwys ymlaen llaw, dylid darparu cyfleusterau golchi a thriniaethau brys i anifeiliaid ger y safle, a llenwi taflenni Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a'u dosbarthu yn ôl y gofyn. Rhaid rhoi'r rhain i'r milfeddyg os bydd damwain yn achosi i'r anifail gyffwrdd ag, anadlu neu fwyta sylwedd o'r fath.

***Amod***
**9(19) Rhaid cludo'r anifeiliaid mewn cludwyr addas, diogel, wedi'u labelu'n briodol.**

***Canllawiau***
- Rhaid i gludwyr fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth. Rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r anifail symud o gwmpas ond yn ddigon bach i leihau unrhyw anaf wrth gludo. Mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid cyfyngu ar symudiadau'r anifail er mwyn osgoi anaf, rhaid nodi'r rhesymau yn ysgrifenedig.

- Os oes angen cymorth bywyd allanol ar anifail, rhaid darparu hyn wrth ei gludo, e.e. tymheredd priodol ar gyfer ymlusgiaid, tymheredd dŵr ar gyfer pysgod.

- Rhaid sicrhau bod pob cludwr anifeiliaid wedi'i ddiogelu'n briodol er mwyn sicrhau nad yw'n symud neu'n dianc wrth symud.

- Rhaid i wahanol rywogaethau ac anifeiliaid anghyfarwydd beidio â rhannu'r un cludwr.

- Os bydd llawer o anifeiliaid yn cael eu cadw yn yr un cludwr, yna rhaid iddo fod yn ddigon mawr i osgoi bod yn orlawn.

- Rhaid i'r cludwyr anifeiliaid fod mewn cyflwr glân a hylan.

- Rhaid i bob cludwr anifeiliaid gynnwys label atodedig, sy'n nodi'r cynnwys ac yn dweud ei fod yn dal anifeiliaid byw.

***Amod***
**9(20) Rhaid cludo a thrin yr anifeiliaid mewn modd (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â thai, tymheredd, awyru ac amlder) sy'n eu diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.**

***Canllawiau***

- Rhaid cludo unrhyw anifeiliaid a dderbynnir neu a draddodir yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth bresennol.

- Rhaid i'r deiliad trwydded ddangos bod cerbyd addas ar gael i gludo'r anifeiliaid.

- Gellir cludo adar ysglyfaethus wedi'u hyfforddi'n llawn, dan gwfwl, yn ddiogel ar fachyn ar yr amod eu bod dan oruchwyliaeth. Fel arall, dylid cludo adar ysglyfaethus mewn bocsys teithio penodol sy'n caniatáu iddynt o leiaf sefyll yn llawn a throi o gwmpas.

- Lle bo'n briodol, rhaid i adar gael y cyfle i glwydo wrth eu symud o le i le.

- Rhaid i bob anifail gael y tymheredd sy'n briodol i'w rywogaeth wrth gael ei gludo. Rhaid sicrhau bod gweithdrefnau tywydd poeth ac oer ar waith. Dylid osgoi cludo anifeiliaid yn ystod tywydd garw a allai effeithio'n andwyol ar eu hiechyd neu eu lles.

- Mae angen archwilio pob anifail am arwyddion o anaf, salwch, trallod neu ofn yn union cyn ac ar ôl cludo, a rhaid rhoi triniaeth brydlon a/neu adael iddo orffwyso yn ôl yr angen. Rhaid peidio â chludo anifail os yw'n dangos unrhyw arwydd o anaf, salwch, trallod neu ofn, oni bai ei fod yn mynd at y milfeddyg i gael triniaeth. Yn y sefyllfa olaf, rhaid cael rhwystrau rhwng cludwyr i leihau'r achosion o drosglwyddo clefyd a rhaid diheintio'r cerbyd a'r cyfarpar yn briodol ar ôl eu cludo.

***Amod***
**9(21) Rhaid i ddeiliad y drwydded neu unigolyn cymwys addas sy'n gofalu am anifail gynnal asesiad risg cyn pob digwyddiad arddangos newydd.**

***Canllawiau***

- Rhaid cynnal asesiadau risg cyn gynted â phosibl pan drefnir arddangosyn newydd.

- Mewn arddangosfeydd sefydlog a pharhaol eu natur, dylid adolygu asesiadau risg fel mater o drefn a'u diweddaru yn ôl yr angen.

- Rhaid i ddeiliaid trwydded anifeiliaid gwyllt peryglus gyflwyno asesiad risg gyda'r hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol sy'n ofynnol yn ôl amod 2(4) y drwydded os yw'r arddangosyn i ffwrdd o'r safle sydd â thrwydded anifeiliaid gwyllt peryglus.

- Rhaid i'r asesiad risg asesu yn erbyn pob un o bump angen lles Deddf Lles Anifeiliaid 2006, y camau lliniaru sy’n cael eu cymryd i leihau’r risgiau hyn a'r sawl sy’n gyfrifol. Rhaid iddo hefyd asesu unrhyw risgiau i ddiogelwch y cyhoedd.

- Rhaid i'r gweithredwr fod yn gyfarwydd â gweithdrefn gwagio pob lleoliad mewn achos o argyfwng.

## 10. Argyfyngau

***Amodau***
**10(1) Rhaid i gynllun argyfwng ysgrifenedig, sy'n dderbyniol i'r awdurdod lleol, fod yn ei le, yn hysbys ac ar gael i bawb sy'n gofalu am anifeiliaid. Rhaid ei ddilyn lle bo'r angen er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i amddiffyn pobl ac anifeiliaid os bydd tân neu os bydd y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo'r anifeiliaid neu systemau gwresogi awyru a nwyeiddio neu awyru hanfodol yn torri neu argyfyngau eraill megis anifeiliaid yn dianc neu'n ymosod.**

**10(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys manylion y mesurau brys sydd i'w cymryd ar gyfer rhyddhau'r anifeiliaid lle bo'n briodol a rhestr ffôn argyfwng sy'n cynnwys y gwasanaeth tân a'r heddlu.**

***Canllawiau***
- Rhaid i fynedfeydd ac allanfeydd tân fod yn glir bob amser.

- Rhaid darparu offer addas i ddiffodd, atal a chanfod tân addas, a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da ac wedi'u gwasanaethu'n rheolaidd. Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy fod wedi'u hyfforddi'n briodol i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar a ddarperir.

- Rhaid bod cynllun ar gael i letya'r anifeiliaid pe bai'r safle'n anaddas.

- Rhaid bod cynllun argyfwng ar waith cyn i unrhyw anifail gyrraedd safle'r arddangosfa. Dylai hyn gynnwys adfer, trin neu ddifa anifeiliaid sydd wedi dianc neu eu hanafu, a gweithdrefnau gwagio os bydd tân, llifogydd ac ati.

- Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981[14] ("Deddf 1981") mae'n drosedd rhyddhau, neu ganiatáu unrhyw anifail nad yw'n preswylio fel arfer ym Mhrydain (rhywogaeth anfrodorol) neu un sydd wedi'i restru yn Atodlen 9 Ddeddf 1981 i ddianc i'r gwyllt. Mae amddiffyniad yn bodoli bod '*y cyhuddedig wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi'r drosedd rhag cael ei chyflawni'*. Gellid defnyddio cynllun argyfwng ysgrifenedig sy'n nodi'r hyn fyddai'n digwydd ar ôl i anifail ddianc, fel rhan o dystiolaeth i brofi diwydrwydd dyladwy.

- Rhaid i'r cynllun argyfwng ysgrifenedig gynnwys cyfarwyddyd i unigolion sy'n ymwneud â'r gweithgaredd trwyddedig i roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) os oes anifail caeth sy'n rhywogaeth a warchodir gan Ewrop[15] (EPS) sy'n destun gofyniad trwydded CNC i drapio/ail-ddal, neu ladd, yn dianc.

- Rhaid i bob person sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd trwyddedadwy fod â rhifau cyswllt milfeddyg a fydd yn ymweld â nhw os oes angen.

---
**14** www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/contents
**15** https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/protected-species-licensing/european-protected-species-licensing/?lang=cy

- Dylai proses ewthanasia gael ei chyflawni, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, gan filfeddyg, neu dan oruchwyliaeth milfeddyg. Os na all ellir cyflawni ewthanasia gan filfeddyg neu dan oruchwyliaeth uniongyrchol milfeddyg, rhaid cofnodi'r rheswm dros roi ewthanasia i'r anifail, y dull a ddefnyddiwyd a'r sawl sy'n cyflawni ewthanasia, a dylid trefnu bod cofnodion ar gael yn arolygiadau dilynol.

- Ni chaiff anifail ar unrhyw gyfrif gael triniaeth ewthanasia heblaw mewn modd dyngarol ac effeithiol. Rhaid cael cyngor milfeddygol rhag ofn bod unrhyw amheuaeth ynghylch dulliau trugarog ac effeithiol.

- Rhaid i gynllun argyfwng gynnwys rhestr o unrhyw rywogaeth restredig ar atodlen gyfredol Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a gedwir, lle bo'n berthnasol, a'r cynllun gweithredu penodol ar gyfer eu symud yn ddiogel a'u hailgartrefu'n briodol ar unwaith mewn argyfwng.

- Rhaid cynnal a chadw unrhyw osodiadau trydanol mewn cyflwr diogel er iechyd a diogelwch pobl ac anifeiliaid. Rhaid cael cynllun wrth gefn effeithiol ar gyfer systemau gwresogi, awyru a nwyeiddio/hidlo hanfodol, fel y bo'n briodol, os bydd y cyflenwad trydan yn methu.

- Rhaid i bob gyrrwr gario llyfr damweiniau a bod ganddynt weithdrefnau i reoli damweiniau sy'n cynnwys cludo anifeiliaid, gan gynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng unrhyw un sydd wedi cael hyfforddiant addas i ddelio ag anafiadau i anifeiliaid.

***Amodau***

**10(3) Rhaid i fesurau fod ar waith er mwyn cyfyngu'r anifeiliaid yn ddiogel lle bo hynny'n briodol.**

**10(4) Rhaid i ddeiliad y drwydded neu berson cymwys addas bob amser fod o fewn pellter teithio rhesymol i'r arddangosfa a'r lleoliadau cadw anifeiliaid, a'u bod wedi'u hyfforddi mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy ac ar gael i fynychu mewn argyfwng.**

***Canllawiau***

- Dan amodau arferol, byddai pellter rhesymol yn cael ei ddehongli fel dim mwy na 30 munud o amser teithio.

## 11. Yswiriant

***Amod***
**11 Rhaid bod gan ddeiliad trwydded yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys mewn perthynas â’r gweithgaredd trwyddedig.**

***Canllawiau***

- Rhaid i gopi o'r ddogfen bolisi fod ar gael yn ystod arddangosfeydd ac yn barod i i'w harchwilio, os gofynnir am hynny.